



Presenoldeb a chyfranogiad yn y sector ôl-16: Gwerthusiad o bresenoldeb, cyfranogiad ac arfer darparwyr ledled Cymru

Hydref 2026

Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:

- ysgolion a lleoliadau meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol
- ysgolion cynradd
- ysgolion uwchradd
- ysgolion pob oed
- ysgolion arbennig a gynhelir
- unedau cyfeirio disgyblion
- ysgolion annibynnol
- addysg bellach
- colegau arbenigol annibynnol
- dysgu oedolion yn y gymuned
- gwasanaethau addysg llywodraeth leol
- trefniadau trochi yn y Gymraeg mewn awdurdodau lleol
- gwasanaethau gwaith ieuenctid
- addysg gychwynnol athrawon
- Cymraeg i oedolion
- prentisiaethau
- dysgu yn y sector cyfiawnder

Mae Estyn hefyd:

- yn adrodd i Senedd Cymru ac yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Lywodraeth Cymru ac eraill
- yn cyhoeddi arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor

Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

www.estyn.llyw.cymru

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir aildddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei aildddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Crynodeb gweithredol	1
Cyflwyniad	2
Cefndir	5
Argymhellion	6
Crynodeb o gyfraddau presenoldeb a chyfranogiad	7
Dehongli'r data presenoldeb	7
Data a phatrymau presenoldeb	7
Rhwystrau cyffredin rhag presenoldeb cryf	12
Ffactorau lles a adroddwyd sy'n effeithio ar bresenoldeb	12
Cludiant, pwysau ariannol a chyflogaeth ran-amser	12
Annibyniaeth, cymhelliant ac ymgysylltiad	13
Amgylchiadau teuluol a phrofiadau blaenorol	14
Dulliau darparwyr i wella presenoldeb	15
Gosod disgwyliadau uchel o ran presenoldeb	16
Cofnodi presenoldeb a diffinio absenoldeb	18
Defnyddio data a systemau monitro	20
Strategaethau ymyrraeth	22
Rolau arwain a chefnogi	24
Meincnodi	25
Profiadau dysgwyr o bresenoldeb a chyfranogiad	25
Cefnogaeth a goruchwyliaeth awdurdodau lleol	28
Goruchwyliaeth a gwerthuso strategol	28
Cludiant a mynediad at ddarpariaeth ôl-16	28
Gwasanaethau lles addysg a gwasanaethau cymorth ehangach	29
Effaith presenoldeb ar ddeilliannau dysgwyr	29
Dulliau a sail y dystiolaeth	32
Geirfa	36
Cyfeiriadau	38

Crynodeb gweithredol

Mae'r adroddiad hwn yn ystyried presenoldeb a chyfranogiad ymhlith dysgwyr amser llawn rhwng 16 ac 19 oed mewn colegau addysg bellach a dosbarthiadau chweched ysgolion ledled Cymru. Rydym yn diffinio presenoldeb fel presenoldeb y dysgwr mewn sesiwn wedi'i hamserlennu, naill ai wyneb yn wyneb neu ar-lein. Rydym yn cydnabod y gallent barhau i gyfranogi yn eu dysgu mewn ffyrdd eraill. Mae'n ystyried patrymau mewn presenoldeb, y ffactorau sy'n dylanwadu ar bresenoldeb isel ac effeithiolrwydd dulliau i wella presenoldeb.

Mae'r adroddiad yn defnyddio tystiolaeth o ymweliadau rhithwir a gynhaliwyd ar-lein gyda cholegau ac ysgolion ledled Cymru, trafodaethau â dysgwyr a staff, ymatebion i arolygon a dadansoddiad o ddata presenoldeb sydd ar gael. Canfu'r adolygiad nad oes dull cenedlaethol cyson o fesur presenoldeb yn y sector ôl-16 nac adrodd arno ar hyn o bryd. O ganlyniad, nid yw ffigurau presenoldeb yn gwbl gymaradwy ar draws darparwyr, ac mewn rhai achosion, nid yw prif ddata presenoldeb yn adlewyrchu presenoldeb corfforol dysgwyr mewn gwersi yn gywir. Mae'r anghysondebau hyn yn lleihau defnyddioldeb data presenoldeb ar gyfer meincnodi, hunanwerthuso a chynllunio gwelliant.

Dros y tair blynedd ddiwethaf, awgrymodd data darparwyr fod dysgwyr yn mynychu tuag 80% o wersi wedi eu hamserlennu ar draws darpariaeth ôl-16. Mae hyn ymhell islaw'r disgwyliadau presenoldeb a osodwyd gan ddarparwyr ac yn dangos bod presenoldeb yn peri pryder o hyd ar draws dosbarthiadau chweched ysgolion a cholegau addysg bellach, fel ei gilydd.

Roedd patrymau presenoldeb yn amrywio mwy yn ôl lefel cwrs, grŵp blwyddyn a'r math o ddarpariaeth nag yn ôl maes pwnc. Roedd presenoldeb yn gryfach ym Mlwyddyn 12 ac ar gyrsiau lefel uwch, yn cynnwys cyrsiau Safon Uwch a rhaglenni galwedigaethol Lefel 3, ac yn wannach mewn darpariaeth Lefel Mynediad, Lefel 1 a darpariaeth orfodol fel darpariaeth ailsefyll ar gyfer Saesneg a mathemateg TGAU neu sesiynau Bagloriaeth Cymru. Roedd dysgwyr yn fwy tebygol o fynychu gwersi yr oeddent yn eu hystyried yn berthnasol i'w dilyniant yn y dyfodol, tra roedd materion amserlennu, yn cynnwys bylchau hir rhwng gwersi, hefyd yn effeithio ar bresenoldeb ar gyfer lleiafrif o ddysgwyr.

Mewn llawer o ddarparwyr, roedd arweinwyr wedi dechrau cryfhau eu defnydd o ddata presenoldeb trwy wahaniaethu'n gliriach rhwng presenoldeb a chyfranogiad, dadansoddi patrymau a thueddiadau yn agosach a chysylltu gwybodaeth am bresenoldeb â data ehangach ar gynnydd a lles dysgwyr. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o ddarparwyr yn dadansoddi data presenoldeb yn ddigon trylwyr, yn enwedig wrth ystyried grwpiau o

ddysgwyr. Mae hyn yn cyfyngu ar eu gallu i werthuso effaith ymyriadau a nodi patrymau sy'n dod i'r amlwg mewn presenoldeb gwael.

Roedd ystod o ffactorau yn cyfrannu at bresenoldeb is. Roedd y rhain yn cynnwys cynnydd a adroddwyd mewn pryderon am les emosiynol dysgwyr, pwysau ariannol a chyflogaeth ran-amser. Roedd dysgwyr yn aml yn disgrifio'r heriau hyn mewn termau ymarferol, yn cynnwys cludiant annibynadwy neu ddud, cydbwysu cyflogaeth ochr yn ochr ag astudio ac anawsterau o ran dychwelyd i arferion mynychu rheolaidd yn dilyn cyfnodau o absenoldeb. Anaml yr oedd y ffactorau hyn yn digwydd ar wahân, ac yn gyffredinol, roedd darparwyr yn cydnabod bod angen cymorth hyblyg ac unigoledig i wella presenoldeb, sy'n aml yn cynnwys cydweithio â theuluoedd, asiantaethau allanol a gwasanaethau cymorth ehangach.

Roedd tystiolaeth o drafodaethau gyda dysgwyr ac ymweliadau â darparwyr yn awgrymu bod presenoldeb wedi'i gysylltu'n agos â mwynhad dysgwyr o'u cyrsiau. Lle mae'r addysgu yn effeithiol ac yn symblu ymgysylltiad dysgwyr, roeddent yn fwy tebygol o fynychu'n rheolaidd. Roedd dysgwyr hefyd yn gwerthfawrogi darparwyr lle roedd staff yn eu hadnabod yn dda, yn ymateb yn gyflym i bryderon ac yn darparu cymorth hyblyg, lle bo'n briodol.

Mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr yn gosod disgwyliadau addas o amgylch presenoldeb. Fodd bynnag, roedd gormod o amrywiad o ran pa mor gyson roedd y disgwyliadau hyn yn cael eu gweithredu, eu monitro a'u hatgyfnerthu. Yn yr arfer gryfaf, roedd arweinwyr yn cynnal disgwyliadau uchel trwy fonitro systematig, ymyrraeth amserol a threfniadau atebolrwydd clir.

Roedd darparwyr wedi dechrau cryfhau dulliau i hyrwyddo presenoldeb, yn cynnwys ymagwedd gefnogol ac unigoledig at bresenoldeb gwael. Un o'r cryfderau nodedig ar draws y rhan fwyaf o ddarparwyr oedd ymddangosiad a datblygiad rolau cymorth arbenigol fel hyfforddwyr bugeiliol, anogwyr cynnydd ac anogwyr dysgwyr a mabwysiadu dulliau 'tîm o amgylch y dysgwr'. Lle roedd y trefniadau hyn wedi eu sefydlu'n dda, roeddent yn cefnogi nodi pryderon ynghylch presenoldeb yn gynharach, ymyrraeth fwy cydlynus a chyfathrebu cryfach â dysgwyr a theuluoedd.

Roedd y rhan fwyaf o ddarparwyr yn cydnabod bod perthynas gref rhwng presenoldeb, cyfranogiad a deilliannau dysgwyr. Yn aml, roedd presenoldeb uwch yn gysylltiedig â chyrhaeddiad, cadw a dilyniant cryfach. Er bod darparwyr yn cydnabod yn gynyddol y gallai dysgwyr barhau i ymgysylltu â dysgu o bell neu drwy blatfformau ar-lein yn ystod cyfnodau o absenoldeb, roedd hyn yn cael ei ystyried yn drefniant dros dro neu eithriadol sy'n gysylltiedig ag amgylchiadau dysgwyr unigol. Roedd darparwyr yn pwysleisio'n gyson

fod presenoldeb rheolaidd yn darparu mwy na budd academaidd. Mae'n cefnogi datblygiad cymdeithasol dysgwyr, mynediad at addysgu arbenigol, datblygu ymddygiadau proffesiynol a pharodrwydd ar gyfer cyflogaeth neu addysg uwch.

Cyflwyniad

Comisiynwyd yr adroddiad hwn i roi darlun cenedlaethol cliriach i Medr a Llywodraeth Cymru o batrymau presenoldeb a chyfranogiad yn y sector ôl-16, y ffactorau sy'n dylanwadu ar bresenoldeb is ac effeithiolrwydd dulliau darparwyr i fonitro a gwella presenoldeb. Mae'r adroddiad yn ystyried presenoldeb a chyfranogiad ymhlith dysgwyr amser llawn rhwng 16 ac 19 oed mewn colegau addysg bellach a dosbarthiadau chweched ysgolion ledled Cymru. Nid yw'n cynnwys dysgwyr amser llawn sy'n 20 oed ac yn hŷn, dysgwyr rhan-amser na dysgwyr mewn prentisiaethau, dysgu oedolion yn y gymuned, ysgolion arbennig neu ysgolion annibynnol.

Nod yr adroddiad yw:

- darparu trosolwg o batrymau presenoldeb a chyfranogiad ar draws darpariaeth ôl-16 yng Nghymru
- nodi prif achosion presenoldeb isel a sut mae'r rhain yn amrywio ar draws gwahanol grwpiau o ddysgwyr
- gwerthuso sut mae ysgolion a cholegau yn cofnodi, yn monitro ac yn dadansoddi presenoldeb
- ystyried effeithiolrwydd strategaethau darparwyr i wella presenoldeb a chyfranogiad
- nodi arfer effeithiol wrth gefnogi ymgysylltiad dysgwyr
- archwilio'r berthynas rhwng presenoldeb, cyfranogiad a deilliannau dysgwyr, yn cynnwys cadw, cyflawniad a dilyniant

Mae'n bwysig gwahaniaethu rhwng presenoldeb a chyfranogiad. Mae presenoldeb yn cyfeirio at bresenoldeb wedi'i gofnodi ar gyfer dysgwr mewn gwersi wedi eu hamserlennu, p'un a yw hynny wyneb yn wyneb neu ar-lein, fel y cofnodir trwy systemau cofrestru ffurfiol. Mae cyfranogiad yn cydnabod y gallai dysgwyr barhau i ddysgu yn ystod cyfnodau o absenoldeb o sesiynau wedi eu hamserlennu, er enghraifft trwy gwblhau gwaith, defnyddio adnoddau ar-lein neu ryngweithio â staff a chyfoedion. Mae'r adroddiad hwn yn archwilio sut mae darparwyr yn sicrhau cydbwysedd rhwng disgwyliadau o amgylch presenoldeb mewn gwersi wedi eu hamserlennu a dulliau i gefnogi dysgwyr sy'n parhau i ymgysylltu mewn dysgu yn ystod cyfnodau o absenoldeb. Mae cyfeiriadau at bresenoldeb yn yr adroddiad hwn yn ymwneud yn benodol â phresenoldeb wedi'i gofnodi mewn gwersi.

Mae cyfyngiadau pwysig i'r data sydd ar gael ar bresenoldeb ôl-16 yng Nghymru. Er bod Llywodraeth Cymru yn casglu gwybodaeth am bresenoldeb mewn sesiynau ar gyfer dosbarthiadau chweched ysgolion trwy ddatganiadau wythnosol, nid yw hon yn set

ddata statudol neu a gyhoeddwyd yn genedlaethol. Nid oes set ddata genedlaethol gyfatebol ar bresenoldeb ar gyfer colegau addysg bellach ar hyn o bryd. Yn ychwanegol, mae darparwyr yn cofnodi ac yn adrodd am bresenoldeb mewn gwahanol ffyrdd, yn cynnwys defnyddio gwers, mesurau presenoldeb sesiynau a dyddiol, sy'n gwneud cymhariaeth uniongyrchol rhwng darparwyr yn annibynadwy. O ganlyniad, mae gallu cyfyngedig i ddarparwyr neu gyrff cenedlaethol feincnodi presenoldeb yn ddibynadwy neu werthuso perfformiad yn gyson ar draws y sector. Mae'r cyfyngiadau hyn yn golygu bod data presenoldeb y cyfeirir ato yn yr adroddiad hwn yn ddata sy'n eiddo i ddarparwyr a dylid ei ddehongli â gofal. Serch hynny, mae'r dystiolaeth a gasglwyd yn ystod yr adolygiad hwn yn darparu trosolwg cyffredinol o batrymau presenoldeb ac arfer darparwyr ar draws addysg ôl-16 yng Nghymru ar hyn o bryd.

Mae'r canfyddiadau wedi eu seilio ar ystod eang o dystiolaeth, yn cynnwys:

- datganiadau data darparwyr o ysgolion a cholegau sy'n cymryd rhan, yn cynnwys cyfraddau presenoldeb, dadansoddiadau yn ôl grŵp dysgwyr a rhesymau am absenoldeb
- ymatebion i arolwg cyn ymweliad sy'n archwilio patrymau presenoldeb, systemau monitro a rhwystrau canfyddedig rhag presenoldeb
- ymweliadau â phob un o'r 12 coleg addysg bellach yng Nghymru, yn cynnwys 10 ymweliad adolygiad thematig rhithwir, a thrafodaethau am gasglu dystiolaeth gyda dau goleg wyneb yn wyneb yn rhan o'u gweithgarwch arolygu craidd, ac â 25 ysgol sydd â dosbarthiadau chweched a ddewiswyd i ddarparu gwasgariad daearyddol eang ac ystod o gyd-destunau, yn cynnwys amrywiad o ran maint, cyfrwng iaith a pherfformiad blaenorol o ran presenoldeb
- trafodaethau ag uwch arweinwyr, arweinwyr presenoldeb, staff bugeiliol a staff gweithredol sy'n gyfrifol am fonitro presenoldeb yn ystod ymweliadau â darparwyr
- grwpiau ffocws dysgwyr, yn cynnwys dysgwyr sydd ag ystod o batrymau presenoldeb, i ddeall rhwystrau rhag mynychu ac ymgysylltu yn ystod ymweliadau â darparwyr
- dadansoddi dogfennau darparwyr, yn cynnwys polisiau a strategaethau presenoldeb, a systemau monitro mewnol
- ymgysylltu â rhanddeiliaid ehangach, yn cynnwys polisi Llywodraeth Cymru ac arweinwyr dadansoddol a chynrychiolwyr awdurdodau lleol

Cefndir

Mae gwella presenoldeb wedi bod yn flaenoriaeth hirsefydlog ar draws ysgolion yng Nghymru. Yn y blynyddoedd diwethaf, amlygodd gwaith thematig Estyn ar bresenoldeb

mewn ysgolion uwchradd (Estyn, 2024; Estyn, 2025a) nad yw presenoldeb wedi adfer yn gyson i lefelau cyn y pandemig a bod absenoldeb parhaus yn destun pryder cenedlaethol o hyd. Mae absenoldeb parhaus, a ddiffinnir fel presenoldeb islaw 90%, yn sylweddol uwch na lefelau cyn y pandemig, yn enwedig ymhlith dysgwyr hŷn a dysgwyr o aelwydydd incwm isel. Mae cyfraddau presenoldeb dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn parhau i fod yn sylweddol is na'u cyfoedion, ac mae tua hanner yr ysgolion uwchradd a arolygwyd yn ddiweddar wedi cael argymhellion i wella presenoldeb. Amlygodd yr adroddiadau thematig (Estyn, 2024; Estyn, 2025a) bwysigrwydd dulliau ysgol gyfan sy'n cyfuno arweinyddiaeth gref, defnydd effeithiol o ddata presenoldeb, cymorth bugeiliol, ymgysylltu â theuluoedd ac addysgu a dysgu o ansawdd uchel. Fodd bynnag, mae dulliau i wella presenoldeb mewn ysgolion uwchradd yn parhau'n amrywiol ledled Cymru, ac mae cyfraddau presenoldeb cenedlaethol wedi gwella ychydig bach yn unig yn y blynyddoedd diwethaf, ac mae cynnydd yn dechrau gwastatu.

Ar hyn o bryd, ceir tystiolaeth genedlaethol gyfyngedig am bresenoldeb a chyfranogiad mewn addysg ôl-16 yng Nghymru, yn enwedig o fewn y sector addysg bellach. Mae Llywodraeth Cymru yn casglu gwybodaeth am bresenoldeb ar gyfer dosbarthiadau chweched ysgolion trwy ddatganiadau wythnosol, er nad yw hyn yn ofyniad statudol ac ni chyhoeddir y data.

Mae tystiolaeth yn awgrymu bod presenoldeb yn her sylweddol o hyd o fewn addysg ôl-16. Dangosodd arolwg diweddar o golegau yng Nghymru a Lloegr (Cymdeithas y Colegau, 2024) fod presenoldeb mewn addysg bellach wedi aros yn gymharol sefydlog, sef tuag 85% dros y blynyddoedd diwethaf, gyda phresenoldeb is ymhlith dysgwyr rhwng 16 ac 18 oed ac amrywiad rhwng grwpiau dysgwyr a meysydd dysgu. Roedd presenoldeb mewn darpariaeth ailsefyll Saesneg a mathemateg TGAU gryn dipyn yn is nag ydyw mewn llawer o feysydd eraill y ddarpariaeth. Amlygodd yr arolwg hefyd fod anghysondebau o ran sut mae colegau'n diffinio a chofnodi absenoldeb awdurdodedig ac anawdurdodedig, gan atgyfnerthu pryderon ehangach am gymharedd a dibynadwyedd data presenoldeb ar draws y sector.

Nodwyd materion tebyg yn adolygiad Llywodraeth Cymru o'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg (LCA) (Llywodraeth Cymru, 2024), a nododd fod amrywiad mewn disgwyliadau o ran presenoldeb ac arferion adrodd rhwng sefydliadau.

Nododd gwaith blaenorol Estyn ar wella presenoldeb mewn ysgolion uwchradd, ochr yn ochr ag ymchwil sector ehangach, fod sawl ffactor yn cyfrannu at bresenoldeb is. Roedd y rhain yn cynnwys effaith barhaus y pandemig ar ymgysylltiad dysgwyr â'r ysgol, tlodi a phwysau ariannol, anawsterau cludiant, amgylchiadau teuluol, a phryderon cynyddol o

amgylch lles emosiynol ac iechyd meddwl dysgwyr. Mae ymchwil a gwaith thematig diweddar (Estyn, 2025b; Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, 2024) yn awgrymu bod pryderon ynghylch lles, ymddieithrio a phwysau economaidd-gymdeithasol yn parhau i effeithio ar gyfranogiad mewn addysg ôl-16. Mae ymchwil ehangach hefyd yn dangos bod presenoldeb uwch yn gysylltiedig â deilliannau academaidd gwell, er bod y rhesymau am absenoldeb a natur cyfranogiad yn ffactorau pwysig (Klein, Sosu a Dare, 2022; Lam et al., 2023).

Mae gwaith diweddar Estyn ar ymddygiad dysgwyr mewn colegau addysg bellach (Estyn, 2025b) hefyd yn darparu cyd-destun pwysig ar gyfer yr adolygiad hwn. Amlygodd effaith barhaus y pandemig ar ymgysylltiad, gwydnwch a datblygiad cymdeithasol dysgwyr, a nododd fod cyrraedd yn hwyr, absenoldeb ac ymddieithrio yn heriau cyffredin mewn lleoliadau addysg bellach. Pwysleisiodd yr adroddiad hefyd bwysigrwydd disgwyliadau clir, perthnasoedd cryf rhwng staff a dysgwyr, defnydd effeithiol o ddangosfyrddau data a chymorth bugeiliol tra datblygedig wrth helpu colegau i ymateb i anghenion dysgwyr. Mae'r themâu hyn wedi eu cysylltu'n agos â phresenoldeb a chyfranogiad, yn enwedig lle mae dysgwyr yn wynebu rhwystrau lluosog rhag ymgysylltu rheolaidd.

Ochr yn ochr â hyn, yn y sector addysg bellach, mae prosiectau a ariennir gan Medr dan arweiniad Colegau Cymru, mewn partneriaeth â cholegau ac undebau llafur, wedi amlygu'n gynyddol y berthynas rhwng presenoldeb, lles ac ymddygiad dysgwyr a baich gwaith staff mewn lleoliadau addysg bellach. Mae'r prosiectau hyn wedi cyfrannu at ddatblygu rolau bugeiliol a chymorth dysgwyr arbenigol, yn cynnwys anogwyr cynnydd a thimau lles, sy'n anelu at gryfhau ymgysylltu â dysgwyr a chefnogi presenoldeb yn fwy effeithiol.

O'i chymryd gyda'i gilydd, mae'r dystiolaeth hon yn amlygu angen am ddealltwriaeth genedlaethol gliriach o bresenoldeb a chyfranogiad mewn addysg ôl-16 yng Nghymru. Ceir gwybodaeth debyg gyfyngedig am bresenoldeb ar draws dosbarthiadau chweched ysgolion a cholegau addysg bellach, sut mae darparwyr yn cofnodi ac yn ymateb i bresenoldeb, a sut mae presenoldeb a chyfranogiad yn cysylltu ag ymgysylltiad, cadw, cyflawniad a dilyniant dysgwyr. Comisiynwyd yr adolygiad hwn i fynd i'r afael â'r bylchau hyn a nodi arfer effeithiol a all gefnogi gwelliant ar draws y sectorau ôl-16 yng Nghymru.

Argymhellion

I barhau i wella presenoldeb ar draws addysg ôl-16 yng Nghymru:

Dylai darparwyr:

- gryfhau eu dull strategol i wella presenoldeb, yn cynnwys gwneud defnydd effeithiol o ddata i nodi tueddiadau ac achosion presenoldeb isel
- gwahaniaethu'n glir rhwng presenoldeb corfforol, absenoldeb awdurdodedig a chyfranogiad dysgwyr mewn dysgu arall wedi'i amserlennu, yn cynnwys gwersi a gyflwynir o bell, wrth gofnodi presenoldeb
- gosod a rhannu disgwyliadau uchel ar gyfer mynychu wyneb yn wyneb i bob dysgwr
- adolygu cynllunio'r cwricwlwm ac amserlennu mewn meysydd lle mae presenoldeb yn gyson wannach i sicrhau bod darpariaeth yn berthnasol, yn hygyrch ac yn cefnogi lefelau presenoldeb uchel
- cydweithio ag awdurdodau lleol, darparwyr ac asiantaethau eraill i wella rhannu gwybodaeth bontio am bresenoldeb ac anghenion cymorth blaenorol dysgwyr, a'u rhwystrau rhag ymgysylltu

Dylai Medr:

- weithio gyda'r sector i safoni disgwyliadau ar gyfer cofnodi ac adrodd am bresenoldeb a chyfranogiad yn y sector ôl-16, yn cynnwys diffiniadau cyffredin, codau presenoldeb a threfniadau adrodd, i gefnogi cymhwyso polisiau presenoldeb darparwyr yn gyson, gan gynnwys disgwyliadau'n ymwneud â chymhwyster a thaliadau Lwfans Cynhaliaeth Addysg
- gweithio gyda Llywodraeth Cymru a darparwyr i gyhoeddi data presenoldeb cenedlaethol ôl-16 i gefnogi meincnodi, gwerthuso a gwelliant parhaus
- hwyluso rhannu arfer effeithiol ar draws y sector, yn enwedig o amgylch defnydd data, cymorth bugeiliol a dulliau sy'n cysylltu presenoldeb, lles ac ymgysylltu

Dylai Llywodraeth Cymru:

- weithio gyda Medr i adolygu trefniadau cludiant a chymorth ariannol sy'n effeithio ar fynediad at ddarpariaeth ôl-16, yn enwedig ar draws ffiniau awdurdodau lleol ac mewn addysg cyfrwng Cymraeg
- gweithio gyda Medr a darparwyr i gyhoeddi data presenoldeb cenedlaethol ôl-16 i gefnogi meincnodi, gwerthuso a gwelliant parhaus

Dylai awdurdodau lleol:

- weithio gydag ysgolion, colegau, awdurdodau lleol eraill a phartneriaid i wella rhannu gwybodaeth yn y cyfnod pontio a mynd i'r afael â rhwystrau rhag mynychu, yn enwedig mewn cysylltiad â materion cludiant

Crynodeb o gyfraddau presenoldeb a chyfranogiad

Dehongli'r data presenoldeb

Mae data presenoldeb a ddefnyddir yn yr adolygiad hwn yn rhoi mewnwelediad defnyddiol i batrymau ar draws darpariaeth ôl-16, ond mae cyfyngiadau pwysig i ddibynadwyedd, cymharedd a meincnodi. Mae'r rhain yn cynnwys:

- dim dull cenedlaethol unigol i gofnodi presenoldeb yn y sector ôl-16 ledled Cymru
- amrywiad rhwng darparwyr mewn defnyddio mesurau presenoldeb mewn gwersi, sesiynau ac yn ddyddiol
- gwahaniaethau rhwng darparwyr o ran sut caiff absenoldeb awdurdodedig, cyfranogiad mewn dysgu o bell wedi'i amserlennu a darpariaeth bartner eu diffinio a'u cofnodi
- amrywiad mewn prosesau adrodd am absenoldeb dysgwyr, yn cynnwys defnyddio hunanardystio mewn rhai darparwyr
- gwahaniaethau yn y graddau y mae prif ddata presenoldeb yn adlewyrchu cyfranogiad neu bresenoldeb corfforol mewn gwersi

O ganlyniad, ni ellir cymharu data presenoldeb yn uniongyrchol ar draws darparwyr a dylid ystyried bod canfyddiadau yn ddangosol yn hytrach na diffiniol.

Data a phatrymau presenoldeb

Ar draws dosbarthiadau chweched ysgolion a cholegau addysg bellach, roedd dysgwyr yn mynychu tuag 80% o wersi wedi eu hamserlennu. Roedd presenoldeb yn amrywio'n sylweddol ar draws darparwyr, ac er bod llawer o ddarparwyr wedi sôn am welliant graddol dros y tair blynedd ddiwethaf, roedd lleiafrif ohonynt yn parhau i adrodd am bresenoldeb a oedd gryn dipyn islaw lefelau cyn y pandemig.

Yn y rhan fwyaf o ddarparwyr, roedd presenoldeb ar ei gryfaf ym Mlwyddyn 12 na Blwyddyn 13, yn enwedig ar gyfer dysgwyr sy'n astudio cyrsiau Safon Uwch. Roedd arweinwyr yn aml yn priodoli hyn i gyfuniad o ffactorau, yn cynnwys mwy o annibyniaeth i ddysgwyr, a bod gan ddysgwyr fwy o ymreolaeth dros benderfyniadau am bresenoldeb a chydbwysu ymrwymadau cystadleuol, ynghyd â phwysau arholiadau a gwaith cwrs, cyflogaeth ran-amser a cheisiadau prifysgol. Dywedodd sawl darparwr y gallai trefniadau cofrestru mwy hyblyg a mwy o ymreolaeth dros astudio'n annibynnol ym Mlwyddyn 13 gyfrannu at bresenoldeb gwannach lle roedd dysgwyr yn llai llwyddiannus o ran rheoli eu hamser a gofynion cystadleuol.

Yn y rhan fwyaf o ddarparwyr, roedd dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn mynychu ar gyfraddau tebyg i'w cyfoedion, neu'n uwch. Yn yr un modd, roedd cyfraddau presenoldeb ar gyfer dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim neu Lwfans Cynhaliaeth Addysg (LCA) yn aml dim ond ychydig islaw cyfraddau presenoldeb darparwyr, yn gyffredinol. Mae hyn yn cyferbynnu â'r sefyllfa mewn ysgolion uwchradd ar gyfer dysgwyr cyn 16, lle mae presenoldeb ymhlith disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim tua chwe phwynt canran yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol ar hyn o bryd.

Roedd presenoldeb ar ei uchaf yn gyson mewn darpariaeth lefel uwch, yn cynnwys cyrsiau Safon Uwch a chysiau galwedigaethol Lefel 3. Mewn cyferbyniad, roedd presenoldeb yn is mewn darpariaeth Lefel 1, ar y cyfan.

Roedd y cyfraddau presenoldeb isaf i'w gweld yn gyson mewn darpariaeth medrau gorfodol ac ailsefyll, yn enwedig sesiynau TGAU Saesneg a mathemateg a Bagloriaeth Cymru. Roedd presenoldeb yn y meysydd hyn yn aml yn sylweddol is na phresenoldeb ym mhrif raglenni dysgwyr. Yn ystod ymweliadau, roedd darparwyr yn aml yn cysylltu hyn â chymhelliant is dysgwyr, profiadau blaenorol gwannach o'r pynciau hyn a bod dysgwyr ddim bob amser yn cydnabod eu perthnasedd na'u gwerth i ddilyniant, cyflogaeth neu gymwysterau yn y dyfodol.

Trwy'r data a ddychwelwyd gan ddarparwyr yn y sampl, ar draws colegau, canfuwyd bod cyfraddau presenoldeb yn gymharol gyson ar draws y rhan fwyaf o feysydd pwnc. At ei gilydd, roedd amrywiad yn ôl pwnc yn llai amlwg yn ôl lefel cwrs a'r math o ddarpariaeth. Nid oedd y wybodaeth a ddarparwyd gan ddosbarthiadau chweched ysgolion yn ddigonol i allu gwneud dadansoddiad neu gymhariaeth ystyrlon yn ôl maes pwnc gan nad oedd digon o ysgolion wedi dychwelyd data ar lefel pwnc.

Rhwystrau cyffredin rhag presenoldeb cryf

Ar draws y darparwyr yr ymwelwyd â nhw, nododd arweinwyr a staff bugeiliol fod ystod eang o achosion presenoldeb is ymhlith dysgwyr ôl-16. Yn y rhan fwyaf o ddarparwyr, nid oedd absenoldeb yn cael ei briodoli i un mater ond i gyfuniad o ffactorau cydberthnasol. Roedd arweinwyr yn cydnabod yn gynyddol mai anaml yr oedd presenoldeb is yn digwydd o ganlyniad i un achos, a bod hyn yn hytrach yn adlewyrchu effaith gyfunol amgylchiadau personol dysgwyr, ffactorau cymdeithasol ehangach a'r ffordd yr oedd darpariaeth yn cael ei threfnu.

Ffactorau lles a adroddwyd sy'n effeithio ar bresenoldeb

Roedd arweinwyr yn nodi'n gyson fod pryderon ynghylch lles a gwydnwch isel yn ffactorau pwysig sy'n cyfrannu at absenoldeb dysgwyr ar draws dosbarthiadau chweched ysgolion a cholegau addysg bellach. Bron ym mhob darparwr, teimlai arweinwyr fod y materion hyn wedi dod yn amlycach ers y pandemig a'u bod yn parhau i effeithio ar allu dysgwyr i fynychu'n gyson. Nododd arweinwyr hefyd fod dysgwyr yn llai gwydn yn adfer o gyfnodau byr o absenoldeb, a allai ddatblygu'n gyflym i fod yn batrymau mwy parhaus o bresenoldeb is.

Mewn ychydig o ddarparwyr, roedd arweinwyr yn cydnabod y gallai absenoldeb y cofnodwyd ei fod yn gysylltiedig â phryderon ynghylch lles neu iechyd meddwl adlewyrchu ystod ehangach o ffactorau sylfaenol, weithiau, fel cymhelliant is, ymddieithrio neu amgylchiadau personol ehangach. Roedd hyn yn atgyfnerthu pwysigrwydd deall y cyddestun o amgylch absenoldeb a darparu cymorth unigoledig priodol.

Roedd salwch yn cael ei gofnodi'n rheswm dros absenoldeb, yn aml. Fodd bynnag, nododd arweinwyr mewn sawl darparwr nad oedd absenoldeb sy'n cael ei gofnodi fel salwch bob amser yn adlewyrchu salwch corfforol syml, a gallai weithiau guddio problemau ehangach, yn cynnwys gorbryder ynghylch mynychu, anawsterau cludiant neu ymddieithrio. Roedd hyn yn amlygu cymhlethdod dehongli data absenoldeb a phwysigrwydd archwilio'r rhesymau sylfaenol dros ddiffyg presenoldeb.

Cludiant, pwysau ariannol a chyflogaeth ran-amser

Roedd cludiant a phwysau ariannol yn rhwystrau sylweddol rhag dysgwyr yn mynychu'n rheolaidd, yn enwedig lle roedd rhaid i ddysgwyr deithio pellterau hir i ddilyn y rhaglen astudio o'u dewis. Dywedodd arweinwyr fod cynnydd mewn costau teithio, cludiant cyhoeddus cyfyngedig ac amrywiad yn nhrefniadau cludiant awdurdodau lleol yn effeithio ar allu dysgwyr i fynychu'n gyson.

Roedd y materion hyn yn arbennig amlwg mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg, lle roedd dysgwyr yn aml yn teithio o ardaloedd daearyddol eang. Mewn ychydig o achosion, teimlai dysgwyr y gallai dysgwyr fanteisio ar gymorth cludiant yn haws ar gyfer darpariaeth cyfrwng Saesneg gyfagos nag ar gyfer dosbarthiadau chweched cyfrwng Cymraeg, a oedd yn cael effaith ar bresenoldeb. Mewn colegau yn arbennig, dywedodd darparwyr fod rhai dysgwyr yr oedd amgylchiadau eu haelwyd yn eu gosod uwchlaw'r trothwyau cymhwyster am LCA neu gymorth ariannol arall, serch hynny, yn profi pwysau ariannol sylweddol. Roedd cynnydd mewn costau cludiant yn golygu bod y dysgwyr hyn yn aml yn cael ychydig iawn o gymorth ariannol gyda theithio, os o gwbl, er eu bod yn wynebu costau sylweddol sy'n gysylltiedig â mynychu coleg neu chweched dosbarth.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi ceisio lleihau rhwystrau yn gysylltiedig â chludiant trwy fentrau fel y cynllun peilot £1 am daith fws i bobl ifanc. Fodd bynnag, parhaodd arweinwyr a dysgwyr mewn llawer o ddarparwyr i nodi bod cludiant yn her sylweddol, yn enwedig mewn cysylltiad â dibynadwyedd teithiau, amseroedd teithio a fforddiadwyedd teithio ar gyfer y rhai nad ydynt yn gymwys i gael cymorth ariannol.

Roedd anawsterau cludiant weithiau'n cael eu cymhlethu gan drefniadau amserlennu. Roedd teithiau hir a chludiant cyhoeddus cyfyngedig neu annibynadwy yn gwneud mynychu yn anos i'w gynnal lle roedd gan ddysgwyr fylchau hir rhwng gwersi neu lle nad oedd opsiynau cludiant ar gael yn hwyrach.

Nododd llawer o ddarparwyr fod cyflogaeth ran-amser yn ffactor a allai effeithio ar bresenoldeb. Roedd llawer o ddysgwyr yn cyfuno gwaith am dâl â'u hastudiaethau yn llwyddiannus. Fodd bynnag, dywedodd darparwyr y gallai gweithio sifftiau hwyr neu oriau estynedig gyfrannu at flinder, prydlondeb llai ac absenoldeb achlysurol i rai dysgwyr, yn enwedig ar ddechrau'r wythnos. Mewn ychydig o achosion, dywedodd arweinwyr a staff fod pwysau ariannol yn achosi dysgwyr i flaenoriaethu cyflogaeth dros bresenoldeb mewn sesiynau dysgu cynlluniedig.

Annibyniaeth, cymhelliant ac ymgysylltiad

Roedd patrymau presenoldeb hefyd yn cael eu dylanwadu gan yr annibyniaeth a'r hunanddigonolrwydd sy'n gysylltiedig ag astudio ôl-16. Dywedodd llawer o ddarparwyr fod rhai dysgwyr yn ei chael yn anodd rheoli eu hamser yn effeithiol, yn enwedig lle roedd ganddynt gyfnodau rhydd, bylchau yn eu hamserlen neu lai o ddisgwyliadau strwythuredig na mewn addysg orfodol. Roedd hyn yn arbennig o amlwg ym Mlwyddyn 13, lle roedd presenoldeb yn aml yn dirywio wrth i ddysgwyr gydbwyso gwaith cwrs, paratoi ar gyfer arholiadau a chynllunio ar gyfer eu camau nesaf ar ôl Blwyddyn 13.

Roedd dysgwyr yn llai tebygol o fynychu sesiynau yr oeddent yn eu hamgyffred eu bod yn llai perthnasol neu'n llai gwerthfawr. Ar draws darparwyr, roedd presenoldeb yn aml yn wannach mewn elfennau gorfodol neu drawsgwricwlaidd, fel Bagloriaeth Cymru, sesiynau tiwtorial a darpariaeth yn seiliedig ar fedrau, yn cynnwys sesiynau ailsefyll TGAU. Yn aml, roedd dysgwyr yn gweld bod y sesiynau hyn wedi eu cysylltu'n llai uniongyrchol â'u dilyniant yn y dyfodol, neu roeddent yn ailadroddus neu'n haws i'w cwblhau yn annibynnol y tu allan i wersi. Roedd presenoldeb yn gryfach lle roedd sesiynau yn ddifyr, yn ymarferol ac wedi eu cysylltu'n glir â nodau a chymwysterau dysgwyr. Mewn ychydig o ddarparwyr, teimlai dysgwyr ac arweinwyr fod argaeledd eang adnoddau ar-lein a deunyddiau wedi eu recordio yn ei gwneud yn haws i ddysgwyr ddal i fyny ar ôl absenoldeb ond gallai hefyd leihau'r angen canfyddedig i fynychu sesiynau theori wyneb yn wyneb.

Amgylchiadau teuluol a phrofiadau blaenorol

Lle roedd gan arweinwyr gyfrifoldebau fel gofalwyr ifanc neu'n wynebu heriau gartref, roedd presenoldeb rheolaidd yn fwy heriol. Roedd darparwyr hefyd yn amlygu dylanwad agweddau ac ymgysylltiad rhieni. Roedd llai o oruchwyliaeth gan rieni a gwahanol ddisgwyliadau o amgylch annibyniaeth weithiau'n cyfyngu ar effeithiolrwydd cyfathrebu rhwng y cartref a'r darparwr.

Roedd patrymau cynharach mewn addysg orfodol yn parhau i ddylanwadu ar bresenoldeb yn y chweched dosbarth neu'r coleg. Dywedodd darparwyr, yn gyffredinol, fod dysgwyr oedd â phresenoldeb gwael ym Mlwyddyn 11, neu a oedd wedi profi amserlenni llai, darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol (AHY) neu addysg yn y cartref, yn fwy tebygol o gael trafferth mynychu yn y sector ôl-16. Mae hyn yn arbennig o arwyddocaol o ystyried bod presenoldeb ar ei wannaf ym Mlwyddyn 11, ar y cyfan, o gymharu â grwpiau blwyddyn oedran gorfodol eraill. Nodwyd bod pontio i addysg ôl-16 yn adeg hynod fregus, yn enwedig lle roedd gwybodaeth am bresenoldeb blaenorol dysgwyr a'u rhwystrau rhag ymgysylltu yn gyfyngedig neu nid oedd yn cael ei rhannu'n effeithiol. Lle roedd gwybodaeth yn y cyfnod pontio yn wannach, roedd darparwyr yn llai abl i nodi dysgwyr mewn perygl o bresenoldeb gwael yn ddigon cynnar.

At ei gilydd, roedd dysgwyr yn nodi'r un rhwystrau rhag mynychu â staff ac arweinwyr, yn enwedig anawsterau cludiant, strwythur amserlenni, pwysau baich gwaith ac ymrwymadau cystadleuol fel cyflogaeth.

Dulliau darparwyr i wella presenoldeb

Ar draws y darparwyr yr ymwelwyd â nhw, roedd arweinwyr a staff, yn gyffredinol, yn cydnabod pwysigrwydd presenoldeb rheolaidd a'i berthynas â deilliannau dysgwyr. Fodd bynnag, roedd effeithiolrwydd dulliau i fonitro, gwerthuso a gwella presenoldeb yn rhy amrywiol ar draws darparwyr.

Lle roedd darparwyr yn fwyaf effeithiol yn gwella presenoldeb, roedd arweinwyr:

- yn gosod disgwyliadau clir ar gyfer presenoldeb ac yn cyfleu'r rhain yn gyson i staff, dysgwyr, rhieni a gofalwyr
- yn hyrwyddo diwylliant cryf o bresenoldeb wyneb yn wyneb
- yn trin presenoldeb fel cyfrifoldeb ar y cyd ymhlith pob un o'r staff
- yn gwneud defnydd cadarn o ddata presenoldeb i nodi pryderon yn brydlon, ystyried presenoldeb grwpiau o ddysgwyr a darparu cymorth targedig, lle mae angen
- yn mynd i'r afael ag absenoldeb yn brydlon, yn aml ar yr un diwrnod
- yn defnyddio ymateb graddedig i wella presenoldeb, gan sicrhau cydbwysedd yn ofalus rhwng her a chymorth
- yn deall y rhwystrau unigol sy'n effeithio ar ddysgwyr a chymorth teilwredig yn unol â hynny, yn cynnwys gosod targedau gwella realistig yn seiliedig ar amgylchiadau dysgwyr
- yn canolbwyntio ar welliant ac ailymgysylltu cynaledig, yn enwedig ar gyfer dysgwyr â phresenoldeb isel yn hanesyddol, yn hytrach na throthwyau presenoldeb penodol
- yn defnyddio dulliau cefnogol, sy'n ystyriol o drawma lle bo'n briodol, yn canolbwyntio ar ailymgysylltu a chadw cyn ystyried tynnu'n ôl o raglenni
- yn defnyddio rolau bugeiliol arbenigol, fel hyfforddwyr a mentoriaid, i gydlyn cymorth
- yn gwerthuso effaith ymyriadau presenoldeb ac yn addasu dulliau yn unol â hynny
- yn ymgysylltu'n effeithiol â rhieni a gofalwyr i atgyfnerthu disgwyliadau o ran presenoldeb a chefnogi ymyrraeth gynnar
- yn cydweithio ag asiantaethau allanol a gwasanaethau cymorth lle roedd dysgwyr yn wynebu rhwystrau lluosog neu gymhleth rhag mynychu
- yn cydnabod pwysigrwydd addysgu difyr, cwricwlwm perthnasol ac amserlenni cynlluniedig i gefnogi presenoldeb

Lle roedd darparwyr yn llai effeithiol:

- roedd arweinwyr yn dibynnu gormod ar brif ffigurau presenoldeb heb ddadansoddi patrymau yn ddigon manwl

- nid oedd arweinwyr yn defnyddio data presenoldeb yn ddigon ffioresig i werthuso pa ymyriadau oedd yn gwella presenoldeb
- roedd arweinwyr yn defnyddio diffiniadau anghyson o absenoldeb anawdurdodedig, presenoldeb a chyfranogiad
- nid oedd arweinwyr yn gwahaniaethu'n ddigon clir rhwng presenoldeb corfforol dysgwyr mewn gwersi ac ymgysylltu ehangach â dysgu
- roedd arweinwyr yn rhy adweithiol ac nid oeddent yn nodi pryderon ynghylch presenoldeb sy'n dod i'r amlwg yn ddigon cynnar
- nid oedd arweinwyr yn hyrwyddo presenoldeb fel cyfrifoldeb ar y cyd ar draws timau staff
- roedd gan arweinwyr fynediad cyfyngedig at wybodaeth fanwl yn y cyfnod pontio, yn enwedig patrymau presenoldeb blaenorol dysgwyr a rhwystrau rhag ymgysylltu
- roedd ymgysylltiad arweinwyr â rhieni, gofalwyr, awdurdodau lleol neu asiantaethau allanol yn gyfyngedig
- nid oedd arweinwyr bob amser yn ystyried sut roedd cynllunio'r cwricwlwm, amserlennu neu amgyffrediadau dysgwyr o berthnasedd yn effeithio ar bresenoldeb
- nid oedd gan arweinwyr feini prawf ddigon clir ar gyfer penderfynu pryd dylai presenoldeb isel, er gwaethaf rhywfaint o ymgysylltu, sbarduno adolygiad mwy ffurfiol o le dysgwr ar raglen

Gosod disgwyliadau uchel o ran presenoldeb

Dyweddodd bron pob un o'r darparwyr eu bod yn defnyddio'u polisi presenoldeb i osod disgwyliadau clir o bresenoldeb rheolaidd. Yn ymarferol, roedd disgwyliadau weithiau'n cael eu darparu fel dogfennau ar eu pen eu hunain ar gyfer dysgwyr ôl-16, er eu bod yn amlach na pheidio yn cael eu hymgorffori o fewn polisiâu ysgol gyfan neu goleg ehangach a'u gweithredu trwy gytundebau dysgwyr, prosesau ymsefydlu a systemau monitro o ddydd i ddydd.

Dyweddodd bron pob un o'r dosbarthiadau chweched ysgolion a'r colegau addysg bellach eu bod yn gosod disgwyliadau uchel ar gyfer presenoldeb, yn aml tua 90% i 100%, er bod gormod o amrywiad o ran pa mor gyson roedd y disgwyliadau hyn yn cael eu cyfleu a'u gweithredu. Roedd dulliau'n adlewyrchu gwahanol gyd-destunau'r ddau sector. Yn aml, roedd dosbarthiadau chweched ysgolion yn defnyddio prosesau mwy strwythuredig, yn cynnwys cytundebau dysgwyr, cysylltu â rhieni ac uwchgyfeirio fesul cam. Roedd colegau hefyd yn gosod disgwyliadau clir ond roeddent yn fwy tebygol o ddisgrifio presenoldeb o fewn trefniadau cymorth ehangach i ddysgwyr, yn cynnwys hyfforddiant cynnydd, cymorth lles, addasiadau rhesymol a phrosesau ailymgysylltu. Ar draws y ddau sector, roedd y darparwyr mwyaf effeithiol yn cyfuno disgwyliadau clir gydag ymyrraeth amserol a chymorth teilwredig.

Ysgol Brynhyfryd: Systemau cliriach a chymorth cynnar

Mae'r ysgol wedi cryfhau presenoldeb yn y chweched dosbarth trwy ddisgwyliadau cliriach, monitro rheolaidd ac ymateb mwy strwythuredig i bryderon. Mae staff yn cofnodi presenoldeb fesul gwers, ac ar gyfer cyfnodau tiwtor disgwylidig a gwasanaethau, hefyd. Mae'r ysgol hefyd yn defnyddio laniardiau mewngofnodi ac allgofnodi i helpu monitro p'un a yw dysgwyr ar y safle. Mae arweinwyr wedi cyflwyno ymateb graddedig pan mae presenoldeb yn dechrau dirywio. Mae hyn yn cynnwys trafodaethau cynnar â thiwtoriaid dosbarth, gweithgarwch dilynol prydlon gan y Swyddog Cymorth Disgyblion, llythyrau at rieni, cyfarfodydd adolygu a chytundebau presenoldeb neu gynlluniau cymorth teilwredig, lle mae angen. Caiff pryderon ynghylch presenoldeb eu hadolygu'n rheolaidd gan y Swyddog Cymorth Disgyblion, Pennaeth y Chweched Dosbarth a'r dysgwr, sy'n cefnogi nodi pryderon yn gynnar ac ymyrraeth amserol cyn i batrymau presenoldeb is ddod yn fwy sefydledig.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo perchnogaeth dysgwyr trwy sesiynau tiwtorial mewn grwpiau bach bob pythefnos, lle mae tiwtoriaid yn trafod presenoldeb, cynnydd â dysgu a baich gwaith gyda dysgwyr. Mae dysgwyr yn deall disgwyliad yr ysgol o ran presenoldeb da, yn gwybod sut i roi gwybod am absenoldeb wedi'i gynllunio neu absenoldeb yn gysylltiedig â salwch, ac yn adnabod y cysylltiad rhwng presenoldeb a chyflawniad. Mae arweinwyr hefyd yn atgyfnerthu'r neges hon trwy gyfathrebu â rhieni ac adolygu presenoldeb yn rheolaidd ar lefel uwch arweinyddiaeth a llywodraethwr. Er bod presenoldeb yn parhau islaw lefelau cyn y pandemig, mae presenoldeb ar gyfer dysgwyr Blwyddyn 12 a chysiau UG wedi gwella yn y blynyddoedd diwethaf, a dywed arweinwyr fod y gwelliannau hyn yn awr yn dechrau cael eu gweld wrth i ddysgwyr symud ymlaen i Flwyddyn 13.

I ddysgwyr sy'n gymwys i gael LCA, nododd pob darparwr fod disgwyliadau o ran presenoldeb yn cael eu gosod ar 100% o sesiynau wedi eu hamserlennu, neu'n agos iawn at hynny, er mwyn derbyn taliad bob wythnos. Dangosodd ymatebion i'r arolwg fod y disgwyliad hwn yn nodweddiadol yn cael ei gymhwyso â rhywfaint o hyblygrwydd, a bod darparwyr – yn unol ag arweiniad y LCA – yn caniatáu i absenoldebau awdurdodedig, fel salwch, apwyntiadau meddygol neu amgylchiadau eithriadol cytûn, gyfrif tuag at ofynion presenoldeb. At ei gilydd, amlygodd y dystiolaeth fod disgwyliad cyson y dylai'r rhai sy'n derbyn LCA fynychu'r holl ddysgu sydd wedi'i amserlennu, tra bod darparwyr yn cadw disgrisiwn wrth gymhwyso'u polisïau presenoldeb eu hunain a phennu absenoldeb awdurdodedig. Mae'n ymddangos bod hyn yn darparu cymhelliant cryf dros fynychu ymhlith dysgwyr sy'n derbyn LCA a gallai helpu esbonio pam mae gwahaniaethau o ran presenoldeb rhwng dysgwyr sy'n derbyn LCA a'u cyfoedion yn aml yn llai amlwg na'r bylchau o ran presenoldeb sy'n gysylltiedig ag anfantais yn ystod addysg orfodol. Fodd

bynag, mae amrywiad yn arferion cofnodi presenoldeb darparwyr ac ymagweddau at absenoldeb awdurdodedig yn golygu nad yw profiadau dysgwyr o ofynion presenoldeb LCA bob amser yn gyson ledled Cymru.

Ar draws y ddau sector, roedd darparwyr yn cydnabod y gallai dysgwyr barhau i ymgysylltu â dysgu er gwaethaf cyfnodau o absenoldeb, er enghraifft trwy blatfformau ar-lein, astudio'n annibynnol, gwaith dal i fyny neu gyfathrebu parhaus â staff. Mewn lleiafrif o achosion, roedd darparwyr yn defnyddio trefniadau hybrid neu hyblyg i gefnogi dysgwyr sy'n wynebu rhwystrau sylweddol rhag mynychu, yn cynnwys gorbryder, anghenion meddygol neu ailintegreiddio ar ôl absenoldeb hir. Fodd bynnag, roedd bron pob un o'r darparwyr yn glir nad oedd ymgysylltiad parhaus dysgwyr â dysgu tra oeddent yn absennol, er enghraifft trwy ddefnyddio deunyddiau dysgu ar-lein neu gwblhau gwaith yn annibynnol, yn cael ei ystyried yn ddewis arall yn lle presenoldeb corfforol rheolaidd. Yn hytrach, roedd yn cael ei ddefnyddio'n bennaf fel mesur tymor byr i helpu dysgwyr i ddal i fyny â'u hastudiaethau yn ystod cyfnodau o absenoldeb.

Roedd tystiolaeth gan ddarparwyr a dysgwyr yn amlygu pwysigrwydd mynychu'n rheolaidd wyneb yn wyneb i gefnogi cynnydd academiaidd dysgwyr, mynediad at addysgu ac adnoddau arbenigol, arferion, datblygiad cymdeithasol a pharodrwydd ar gyfer cyflogaeth neu astudio pellach. Yn aml, roedd y dysgwyr eu hunain yn dweud bod addysgu wyneb yn wyneb, esboniad uniongyrchol a rhyngweithio â staff a chyfoedion yn cefnogi eu dysgu yn fwy effeithiol na gweithio'n annibynnol ar-lein. O ganlyniad, roedd y rhan fwyaf o ddarparwyr yn gweithio tuag at wella presenoldeb dysgwyr wyneb yn wyneb, hyd yn oed lle roedd hyblygrwydd dros dro ar waith.

Roedd arweinwyr yn aml yn mabwysiadu dull cyd-destunol wrth weithio gyda dysgwyr unigol. Yn ymarferol, roedd targedau gwella presenoldeb yn aml wedi eu teilwra i fannau cychwyn ac amgylchiadau personol dysgwyr, yn enwedig lle roedd dysgwyr yn dechrau addysg ôl-16 gyda phresenoldeb isel iawn yn hanesyddol, tarfu ar brofiadau blaenorol neu rwystrau sylweddol rhag ymgysylltu. Yn yr achosion hyn, roedd arweinwyr yn aml yn gweld gwelliant cynyddrannol fel cynnydd ystyrion, er enghraifft lle roedd dysgwr â chyfradd presenoldeb blaenorol o ryw 50% neu 60% yn cynnal presenoldeb yn agosach at 70% neu 80%. Roedd hyn yn adlewyrchu pwyslais ehangach ar welliant, ailymgysylltu a chadw yn hytrach na dibyniaeth ar drothwyau presenoldeb sefydlog yn unig.

Cofnodi presenoldeb a diffinio absenoldeb

Roedd pob darparwr wedi sefydlu systemau ar gyfer cofnodi presenoldeb, gyda defnydd cynyddol o olrhain fesul gwers fel y mesur mwyaf ystyrion mewn lleoliadau ôl-16. Fodd bynnag, roedd gormod o amrywiad o ran sut roedd presenoldeb yn cael ei ddiffinio, ei godio a'i adrodd, yn enwedig mewn cysylltiad ag absenoldeb awdurdodedig. O ganlyniad,

mae'n anodd gwneud unrhyw gymariaethau neu werthuso presenoldeb dysgwyr yn y sector ôl-16 yn llawn.

Yn gyffredinol, roedd dosbarthiadau chweched ysgolion yn gweithredu o fewn fframweithiau cliriach a mwy cyson, fel arfer gan ddefnyddio'r un codau a chategoriâu presenoldeb â'r rhai sy'n cael eu cymhwyso mewn addysg orfodol, gan gynnwys codau absenoldeb awdurdodedig ac anawdurdodedig a disgwyliadau ar gyfer hysbysiad gan rieni. Mewn colegau addysg bellach, roedd dulliau'n fwy amrywiol. Yn aml, roedd colegau'n defnyddio codau presenoldeb a systemau cofnodi a ddatblygwyd yn lleol, gyda gwahaniaethau o ran sut roedd categorïau absenoldeb awdurdodedig ac anawdurdodedig yn cael eu diffinio a'u cymhwyso.

Roedd amrywiad hefyd o ran sut roedd disgwyl i ddysgwyr roi gwybod am absenoldeb a sut roedd darparwyr yn cymhwyso trefniadau ar gyfer rhoi tystiolaeth o salwch. Mewn rhai colegau, roedd dysgwyr yn rhoi gwybod am absenoldeb trwy ap, ffurflen ar-lein neu borth dysgwyr, tra'u bod mewn colegau eraill yn cysylltu â thiwtoriaid, darlithwyr neu wasanaethau cymorth yn uniongyrchol trwy'r e-bost, dros y ffôn neu drwy blatfformau cyfathrebu ar-lein. Roedd llawer o ddarparwyr yn galluogi dysgwyr i hunanardystio cyfnodau byr o salwch, yn aml am ychydig o ddyddiau, ac mewn rhai achosion, am hyd at wythnos, gan adlewyrchu polisiâu presenoldeb lleol ac arweiniad LCA. Lle roedd absenoldebau yn ymestyn y tu hwnt i'r cyfnodau hyn, roedd darparwyr yn gyffredinol yn gofyn am dystiolaeth neu gadarnhad ychwanegol, fel hysbysiad gan rieni, tystiolaeth feddygol neu drafodaeth gyda staff bugeiliol. Fodd bynnag, roedd faint o dystiolaeth sydd ei hangen a'r graddau yr oedd cyfnodau mynych o hunanardystio yn cael eu derbyn yn amrywio rhwng darparwyr. O ganlyniad, gallai dysgwyr â phatrymau presenoldeb tebyg brofi gwahanol brosesau a disgwyliadau yn dibynnu ar ble roeddent yn astudio. Roedd arweinwyr mewn darparwyr sy'n defnyddio hunanardystio sy'n cael ei reoli'n ofalus yn teimlo bod hyn yn cefnogi annibyniaeth dysgwyr ac yn adlewyrchu disgwyliadau yn y gweithle, lle mae cyflogaeth fel arfer yn gallu hunanardystio salwch tymor byr. Roedd dysgwyr hefyd yn gwerthfawrogi bod darparwyr yn ymddiried ynddynt i roi gwybod am absenoldeb eu hunain ac yn teimlo bod hunanardystio yn lleihau rhwystrau diangen pan oeddent yn sâl am gyfnodau byr.

Mater allweddol ar draws ysgolion a cholegau, fel ei gilydd, oedd y diffyg cysondeb o ran sut roedd presenoldeb ac absenoldeb yn cael eu cofnodi a'u hadrodd. Er bod darparwyr yn gyffredinol yn disgwyl i ddysgwyr fynychu pob un o'r sesiynau wedi eu hamserlennu, roeddent yn wahanol o ran sut roedd absenoldebau awdurdodedig, fel salwch, apwyntiadau meddygol, ymweliadau addysgol a lleoliadau gwaith, yn cael eu hadlewyrchu mewn data presenoldeb. O ganlyniad, nid oedd ffigurau presenoldeb bob

amser yn cynrychioli'r un mesur sylfaenol o bresenoldeb ar draws darparwyr, sy'n cyfyngu ar ddibynadwyedd cymariaethau rhwng lleoliadau.

Mewn lleiafrif o ddarparwyr, yn fwy cyffredin mewn colegau addysg bellach, roedd arweinwyr yn gwahaniaethu rhwng gwahanol fesurau presenoldeb, fel presenoldeb cyffredinol a phresenoldeb ar y safle neu mewn gwersi. Roedd y dulliau hyn, a oedd yn cael eu cefnogi'n aml gan ddangosfyrddau digidol, yn darparu dealltwriaeth fwy arlliwedig o bresenoldeb corfforol dysgwyr ochr yn ochr â'u hymgysylltiad ehangach â dysgu. Fodd bynnag, nid oedd yr arfer hon yn gyson ar draws y sector.

Defnyddio data a systemau monitro

Er bod y rhan fwyaf o ddarparwyr wedi sefydlu systemau ar gyfer monitro presenoldeb, roedd ansawdd ac effaith y prosesau yn amrywio. Roedd gan leiafrif ohonynt ddangosfyrddau a systemau olrhain byw tra datblygedig a oedd yn galluogi arweinwyr a staff i ddadansoddi patrymau presenoldeb yn gyflym ac yn fanwl ar draws grwpiau dysgwyr, pynciau a mathau o ddarpariaeth. Roedd y mwyafrif yn dibynnu gormod ar brosesau llaw ac yn sôn am anawsterau wrth ddethol neu ddadansoddi data presenoldeb yn effeithlon. Roedd hyn yn cyfyngu ar allu arweinwyr i nodi patrymau sy'n dod i'r amlwg yn gyflym a gwerthuso effaith ymyriadau presenoldeb dros gyfnod. Roedd hyn yn hynod amlwg mewn dosbarthiadau chweched ysgolion llai, lle roedd capasiti ac adnoddau staff yn aml yn canolbwyntio'n bennaf ar ddysgwyr cyn 16. O ganlyniad, nid oedd arweinwyr bob amser yn dadansoddi data presenoldeb ôl-16 yn ddigon manwl yn ôl grŵp dysgwyr, cwrs neu bwnc i nodi tueddiadau neu dargedu cymorth yn effeithiol.

Roedd y rhan fwyaf o golegau addysg bellach yn defnyddio dangosfyrddau digidol i olrhain presenoldeb ochr yn ochr â chynnydd, lles a nodweddion dysgwyr. Roedd y systemau hyn yn galluogi arweinwyr i nodi patrymau a monitro presenoldeb ar lefelau lluosog, gan gynnwys yn ôl cwrs, pwnc a grŵp dysgwyr.

Coleg Caerdydd a'r Fro: Orlhain presenoldeb ac ymyrraeth gyflym

Mae'r coleg wedi ymgorffori strategaeth glir ar gyfer presenoldeb a chadw yn seiliedig ar yr egwyddor fod presenoldeb cryf yn cefnogi cyrhaeddiad, dilyniant a pharodrwydd i weithio. Mae ei 'Hyb Orlhain a Chynnydd' mewnol yn dwyn ynghyd wybodaeth amser real am bresenoldeb, targedau, graddau ac anghenion dysgu ychwanegol (ADY), gan alluogi arweinwyr, staff a dysgwyr i fonitro presenoldeb a chyfranogiad ehangach yn agosach. Mae defnydd y coleg o bresenoldeb ar y safle fel y prif fesur perfformiad yn gryfder allweddol, sy'n rhoi darlun cliriach o bresenoldeb corfforol dysgwyr mewn gwersi tra'n parhau i gydnabod cyfranogiad ehangach. Mae cyfarfodydd wythnosol am ddysgwyr sy'n wynebu risg yn adolygu dysgwyr sydd â gradd goch neu ambr yn fanwl,

ac mae anogwyr cynnydd a dirprwy benaethiaid yn cytuno ar ymyriadau amserol, teilwredig yn gysylltiedig â phresenoldeb, cynnydd a lles. Mae anogwyr cynnydd yn darparu man cyswllt cyson i ddysgwyr ac yn gweithredu'n gyflym gyda dysgwyr a rhieni pan mae pryderon yn dod i'r amlwg. Mae rhybuddion awtomatig mewn negeseuon testun a negeseuon e-bost, pwyntiau adolygu cynnydd strwythuredig a chodio presenoldeb manwl wedi cryfhau ymyrraeth gynnar ac wedi helpu staff i nodi rhesymau sylfaenol am absenoldeb yn fwy cywir. Dywedodd arweinwyr a staff fod y dull yn gwella cyflymdra a chydlyn ymyrraeth presenoldeb tra bod presenoldeb ar draws y coleg wedi gwella yn y blynyddoedd diwethaf, ac mae bellach yn agosáu at lefelau cyn y pandemig.

Yn y rhan fwyaf o ddosbarthiadau chweched ysgolion, roedd monitro presenoldeb yn systematig ac yn adeiladu ar brosesau presenoldeb sefydledig yr ysgol ar gyfer dysgwyr o oedran gorfodol. Roedd hyn yn nodweddiadol yn cynnwys olrhain dyddiol, mynd i'r afael ag absenoldeb ar yr un diwrnod, a gweithdrefnau uwchgyfeirio clir yn gysylltiedig â throthwyau presenoldeb diffiniedig. Fodd bynnag, roedd amrywiad o ran sut roedd presenoldeb yn cael ei gofnodi a'i ddehongli yn golygu nad oedd data bob amser yn cael ei ddefnyddio'n gyson ar draws darparwyr. Mewn ychydig o achosion, dywedodd arweinwyr eu bod yn cael anhawster yn dehongli ffigurau presenoldeb, yn enwedig lle roedd absenoldeb awdurdodedig yn cael ei gynnwys o fewn prif fesurau.

Ysgol Gyfun Esgob Gore: Defnyddio data ac atebolrwydd ar y cyd i gryfhau presenoldeb

Mae'r ysgol wedi cryfhau ei threfn o ran goruchwyllo a monitro presenoldeb yn y chweched dosbarth trwy hunanwerthuso manwl a dadansoddi patrymau presenoldeb yn glir, yn enwedig mewn pynciau unigol, sy'n cydnabod bod presenoldeb mewn gwersi yn darparu darlun mwy cywir o ymgysylltu na marciau cofrestru yn y bore a'r prynhawn yn unig. Mae presenoldeb wedi gwella yn y blynyddoedd diwethaf, yn enwedig ar gyfer dysgwyr ym Mlwyddyn 12, ac mae arweinwyr yn priodoli hyn, yn rhannol, i ddull mwy strwythuredig a chydlynus ar gyfer presenoldeb. Mae capasiti arwain ychwanegol, yn cynnwys goruchwyliaeth uwch arweinyddiaeth a rôl gymorth ddynodedig, wedi cryfhau atebolrwydd ar gyfer presenoldeb ar draws y chweched dosbarth. Caiff disgwyliadau o ran presenoldeb eu cyfleu'n glir trwy ddigwyddiadau ymsefydlu Blwyddyn 11, nosweithiau agored a chontract mynychu'r chweched dosbarth sy'n cael ei lofnodi gan ddysgwyr a rhieni. Mae dull cydlynus sy'n cynnwys tiwtoriaid dosbarth, athrawon pwnc ac arweinwyr bugeiliol yn cefnogi monitro rheolaidd ac ymyrraeth gynnar, a chaiff gwybodaeth wythnosol am bresenoldeb ei rhannu gyda thiwtoriaid a'i thrafod gyda dysgwyr yn ystod cyfarfodydd tiwtoriaid. Lle mae presenoldeb yn dirywio, mae ymateb

graddedig yn dechrau gyda sgysiau cefnogol â dysgwyr cyn uwchgyfeirio i ymglymiad staff pwnc, cysylltu â rhieni a chyfarfodydd ffurfiol, lle bo'n briodol.

Strategaethau ymyrraeth

Roedd gan y rhan fwyaf o ddarparwyr ymagweddau strwythuredig at ymyrraeth, a oedd fel arfer wedi eu seilio ar nodi'n gynnar ac ymateb graddedig. Mewn dosbarthiadau chweched ysgolion, roedd prosesau ymyrraeth wedi eu diffinio'n glir ac yn cael eu cymhwyso'n gyson, ar y cyfan. Roedd y rhain yn aml yn dilyn modelau uwchgyfeirio fesul cam, gyda throthwyau presenoldeb yn sbarduno camau gweithredu penodol fel llythyrau gartref, cyfarfodydd â rhieni a gofalwyr, ac ymglymiad uwch arweinwyr. Yn yr arfer fwyaf effeithiol, roedd arweinwyr a staff bugeiliol yn ychwanegu at y prosesau ffurfiol hyn trwy gyfathrebu amserol â rhieni a gofalwyr, a mynd i'r afael ag absenoldeb yn gyflym. Dywedodd darparwyr fod y dulliau hyn yn helpu atal patrymau o absenoldeb rhag cael eu hymgorffori ac yn cefnogi dysgwyr i ailymgysylltu â dysgu.

Mewn colegau addysg bellach, roedd dulliau ymyrraeth hefyd yn cael eu llywio gan ddealltwriaeth gref o amgylchiadau unigol dysgwyr, ond roeddent fel arfer yn fwy hyblyg ac unigodedig o ran sut roedd cymorth yn cael ei gymhwyso. Er bod prosesau uwchgyfeirio ar waith, roedd colegau yn aml yn rhoi mwy o bwyslais ar nodi'r rhesymau sylfaenol am absenoldeb a chydlynu cymorth teilwredig trwy anogwyr cynnydd, timau lles a gwasanaethau bugeiliol ehangach. Mewn ychydig o achosion, roedd darparwyr yn addasu disgwyliadau neu'n cadw dysgwyr ar raglenni lle roedd presenoldeb yn isel, ond roedd dysgwyr yn parhau i gwblhau gwaith, defnyddio deunyddiau dysgu a gwneud cynnydd academiaidd digonol, sy'n helpu cynnal cyfraddau cadw a dilyniant.

Yn gyffredinol, roedd y gwahaniaethau rhwng dulliau ysgolion a cholegau yn adlewyrchu cyd-destun a threfniadaeth pob sector yn hytrach na gwahaniaethau clir mewn effeithiolrwydd. Er bod dulliau'n wahanol rhwng sectorau, roedd yr arfer gryfaf yn rhannu nodweddion cyffredin. Roedd arweinwyr yn nodi pryderon yn gynnar, yn defnyddio gwybodaeth am bresenoldeb ochr yn ochr â gwybodaeth ehangach am amgylchiadau dysgwyr, ac yn cydlynu cymorth amserol trwy staff a oedd yn adnabod dysgwyr yn dda.

Ar draws y ddau sector, roedd llawer o ddarparwyr wedi symud oddi wrth ystyried presenoldeb isel yn fater disgyblu. Yn hytrach, roedd y rhan fwyaf ohonynt yn mabwysiadu dull mwy cefnogol ac sy'n ystyriol o drawma, mewn rhai achosion, a oedd yn ceisio deall y rhesymau am absenoldeb a sicrhau bod dysgwyr yn parhau i ymgysylltu â dysgu. Roedd hyn yn hynod amlwg lle roedd gan ddysgwyr anghenion iechyd a lles, cyfrifoldebau gofalu

neu brofiadau blaenorol o darfu ar addysg. Dywedodd darparwyr wrthym yn gyson yn ystod yr ymweliadau eu bod felly yn llai tebygol nag yn y gorffennol o dynnu dysgwyr allan o gyrsiau oherwydd presenoldeb gwael yn unig. Yn hytrach, roeddent fel arfer yn ceisio defnyddio cymorth fesul cam, cynlluniau ailymgysylltu, dychweliadau graddol, mentora neu atgyfeiriadau i wasanaethau cymorth ehangach cyn ystyried p'un a ddylai dysgwr aros ar gwrs.

Roedd y dull hwn yn cael ei groesawu gan y rhan fwyaf o staff a dysgwyr oherwydd ei fod yn helpu darparwyr i ymateb yn fwy sensitif i amgylchiadau unigol ac yn cefnogi ailymgysylltu ar gyfer dysgwyr a allai fod wedi ymddieithrio yn gyfan gwbl o addysg yn y gorffennol. Fodd bynnag, mewn ychydig iawn o achosion, teimlai staff fod hyn yn creu diffyg eglurder o amgylch faint o ymgysylltu parhaus â dysgu tra roedd yn absennol oedd yn ddigonol i ddysgwr aros ar y trywydd iawn, yn enwedig lle roedd presenoldeb yn isel iawn o hyd, ond roedd dysgwyr yn parhau i gyflwyno'u gwaith neu ymgysylltu o bryd i'w gilydd. Yn yr achosion hyn, roedd darparwyr yn parhau i ystyried sut i gydbwysu cymorth a chadw gyda disgwyliadau o amgylch presenoldeb, dilyniant a pharodrwydd ar gyfer astudio pellach neu gyflogaeth.

Roedd darparwyr yn cydnabod bod cludiant yn her allweddol i ddysgwyr sy'n teithio pellterau sylweddol, yn mynychu darpariaeth cyfrwng Cymraeg neu'n dibynnu ar fathau lluosog o gludiant cyhoeddus. Mewn ychydig o achosion, dywedodd darparwyr fod dysgwyr yn teithio hyd at 90 munud bob ffordd i ddefnyddio'r ddarpariaeth o'u dewis. Lle roedd anawsterau cludiant yn effeithio ar bresenoldeb, roedd darparwyr yn aml yn gweithio gyda dysgwyr, teuluoedd, awdurdodau lleol a phartneriaid eraill i helpu dysgwyr i ddefnyddio cludiant neu gymorth ariannol sydd ar gael a nodi atebion ymarferol, lle bo modd. Fodd bynnag, teimlai arweinwyr, yn gyffredinol, fod eu gallu i fynd i'r afael â rhwystrau yn gysylltiedig â chludiant yn cael ei gyfyngu gan bolisiau cludiant a threfniadau cyllido ehangach.

Roedd cyfathrebu â rhieni neu ofalwyr ar yr un diwrnod yn nodwedd o arfer gryfach, yn enwedig mewn dosbarthiadau chweched ysgolion. Mewn colegau, roedd ymgysylltu â rhieni yn tueddu i ddigwydd yn hwyrach neu roedd yn fwy cyfyngedig, gan adlewyrchu gwahaniaethau mewn disgwyliadau o ran annibyniaeth dysgwyr.

Ysgol Gyfun Trefynwy: Ymyrraeth gyflym fesul cam

Mae'r ysgol wedi sefydlu proses glir i ymateb yn gyflym i bryderon ynghylch presenoldeb yn y chweched dosbarth. Mae tiwtoriaid dosbarth yn gweithredu fel y pwynt cyswllt cyntaf ac yn defnyddio crebwyll proffesiynol i ddechrau sgysiau cynnar a chefnogol gyda dysgwyr, gan archwilio materion fel cludiant, baich gwaith neu les cyn i

batrymau sefydlu. Lle mae pryderon yn parhau, mae achosion yn cael eu huwchgyfeirio trwy gamau clir i uwch arweinwyr. Mae olrheiniwr ymyriadau ymgorfforedig yn cefnogi tryloywder ac atebolrwydd, gan alluogi tiwtoriaid ac arweinwyr i weld camau gweithredu'n cael eu cymryd, a'r camau nesaf. Mae'r ysgol hefyd yn defnyddio gwybodaeth am bresenoldeb ochr yn ochr â phatrymau cyrsiau a phwyntiau allweddol yn y flwyddyn, fel ffug arholiadau, i werthuso pryderon ac addasu cymorth. Mae hyn yn helpu staff i nodi pryderon yn gyflym ac ymateb yn brydlon cyn i batrymau presenoldeb is ddod yn fwy sefydledig, tra'n cynnal disgwyliad clir fod dysgwyr yn mynychu wyneb yn wyneb, lle bynnag y bo modd.

Rolau arwain a chefnogi

Yn y rhan fwyaf o ddarparwyr, roedd llinellau cyfrifoldeb ac atebolrwydd clir ar gyfer presenoldeb dysgwyr ôl-16. Yn y rhan fwyaf o leoliadau, roedd presenoldeb yn cael ei oruchwylio gan uwch arweinwyr, gyda chyfrifoldeb gweithredol yn cael ei rannu ymhlith tiwtoriaid, staff bugeiliol a thimau gweinyddol.

Roedd datblygu rolau arbenigol fel anogwyr cynnydd, anogwyr dysgwyr neu fentoriaid bugeiliol yn gryfder nodedig. Roedd y rolau hyn yn darparu capasiti dynodedig am fonitro presenoldeb, meithrin perthnasoedd â dysgwyr a chydlynu cymorth. Mewn llawer o achosion, roedd yr aelodau staff hyn yn meddu ar wybodaeth fanwl am amgylchiadau dysgwyr ac yn gallu ymyrryd yn gynnar ac yn effeithiol.

Ysgol Gymraeg Gwynllyw: Anogwr dysgu dynodedig

Mae arweinwyr yn dweud bod penodi'r anogwr dysgu yn rhan allweddol o strategaeth yr ysgol i wella presenoldeb ers y pandemig. Mae'r anogwr dysgu yn monitro presenoldeb yn agos, yn olrhain yn brydlon pan nad yw dysgwyr yn mynychu gwersi, ac yn cysylltu â dysgwyr neu'r cartref, lle mae angen. Maent hefyd yn cynorthwyo dysgwyr yn ystod sesiynau astudio annibynnol wedi eu hamserlennu, a gyflwynwyd ar ôl adborth llais y dysgwr, sy'n helpu dysgwyr i ddefnyddio amser digyswllt yn gynhyrchiol tra'n aros ar y safle. Mae gan yr hyfforddwr dysgu ddealltwriaeth gref o amgylchiadau dysgwyr, mae'n cyfrannu at gyfarfodydd cynnydd bob tair wythnos gydag uwch arweinwyr ac yn darparu mentora gyrfaoedd i helpu dysgwyr i gysylltu presenoldeb â nodau a dilyniant yn y dyfodol. Dywed arweinwyr a dysgwyr fod y rôl wedi cryfhau cyfathrebu, wedi cefnogi ymyrraeth gynharach pan mae pryderon ynghylch presenoldeb yn dod i'r amlwg ac wedi helpu cynnal ymgysylltiad yn ystod cyfnodau astudio annibynnol. Mae presenoldeb yn y chweched dosbarth wedi gwella yn y blynyddoedd diwethaf, ac mae uwchlaw lefelau cyn y pandemig, erbyn hyn.

Ar draws y ddau sector, roedd llawer o ddarparwyr wedi mabwysiadu dull ‘tîm o amgylch y dysgwr’. Roedd hyn yn cynnwys cydlynw gweithio rhwng staff cwricwlwm, timau bugeiliol, gwasanaethau lles ac asiantaethau allanol, lle bo’n briodol. Mewn arfer gryfach, roedd hyn yn galluogi darparwyr i fynd i’r afael â’r ffactorau lluosog a chydberthnasol sy’n effeithio ar bresenoldeb.

Coleg Chweched Dosbarth Catholig Dewi Sant: Tîm o amgylch y dysgwr

Mae’r coleg yn defnyddio’i Grŵp Lles Dysgwyr i gydlynw cymorth ar gyfer dysgwyr sy’n profi anawsterau o ran presenoldeb. Mae’r grŵp yn dod â staff bugeiliol a gwasanaethau cymorth at ei gilydd i adolygu presenoldeb dysgwyr ochr yn ochr â lles, cynnydd academiaidd ac amgylchiadau unigol. Mae tiwtoriaid bugeiliol yn gweithredu fel y prif bwynt cyswllt ar gyfer rhieni a dysgwyr, gan helpu osgoi dyblygu gohebiaeth a sicrhau yr eir i’r afael â phryderon yn gyson. Mae’r grŵp yn cytuno ar gymorth teilwredig, a allai gynnwys cynlluniau gweithredu, mentora, dychweliadau graddol, addasiadau i amserlenni neu atgyfeiriadau i gymorth allanol. Mae’r dull hwn yn helpu’r coleg i gydlynw cymorth yn fwy effeithiol ac ymateb i bryderon ynghylch presenoldeb mewn ffordd sy’n ystyriol o drawma, yn enwedig lle mae gan ddysgwyr anghenion iechyd, lles neu gymorth ychwanegol sylweddol. Dywed arweinwyr fod y grŵp wedi gwella rhannu gwybodaeth rhwng staff, wedi galluogi ymyriadau mwy teilwredig ac wedi cyfrannu at welliannau ehangach y coleg mewn cyfraddau presenoldeb dros y tair blynedd ddiwethaf.

Meincnodi

Roedd meincnodi presenoldeb ar draws darpariaeth ôl-16 yn cael ei gyfyngu gan absenoldeb fframwaith cenedlaethol ar gyfer cofnodi ac adrodd am bresenoldeb. Roedd darparwyr yn defnyddio gwahanol ddiffiniadau, mesurau ac arferion cofnodi, ac nid oedd set ddata presenoldeb sy’n cael ei chasglu neu’i chyhoeddi yn genedlaethol. O ganlyniad, nid oedd data presenoldeb yn ddigon cymaradwy i gefnogi meincnodi dibynadwy ar draws y sector. Roedd hyn yn cyfyngu ar allu darparwyr i ddeall pa mor dda roeddent yn perfformio, nodi tueddiadau cenedlaethol a gwerthuso pa ddulliau oedd fwyaf effeithiol o ran gwella presenoldeb.

Profiadau dysgwyr o bresenoldeb a chyfranogiad

At ei gilydd, cynhaliom 51 o grwpiau trafod gyda dysgwyr a oedd yn cynnwys tua 500 o ddysgwyr o ddosbarthiadau chweched ysgolion a cholegau addysg bellach ledled Cymru.

Roedd llawer o ddysgwyr yn deall pwysigrwydd presenoldeb ac roeddent wedi eu cymell i ymgysylltu â'u dysgu. Er bod presenoldeb ychydig o ddysgwyr mewn grwpiau trafod yn is neu'n fwy amrywiol, roedd llawer ohonynt yn mynychu'n rheolaidd ac yn siarad yn gadarnhaol am eu cyrsiau a'u nodau yn y dyfodol. Roedd dysgwyr fel arfer yn fyfyrion am y ffactorau sy'n effeithio ar bresenoldeb, iddyn nhw eu hunain a'u cyfoedion, fel ei gilydd. Dywedon nhw wrthym fod presenoldeb yn cael ei ddylanwadu gan gyfuniad o ffactorau, yn cynnwys:

- pa mor ddifyr a pherthnasol oedd gwersi, yn eu barn nhw
- ansawdd perthnasoedd â staff
- bylchau mewn amserlenni, diwrnodau hir a gwersi ynysig
- cost cludiant, dibynadwyedd a hyd teithiau
- gwaith rhan-amser, gwersi gyrru ac ymrwymadau eraill
- straen, gorbryder, baich gwaith a phwysau asesu
- argaeledd adnoddau ar-lein i ddal i fyny
- pa mor glir roedd darparwyr yn esbonio disgwyliadau o ran presenoldeb a phrosesau absenoldeb

Roedd y rhan fwyaf o ddysgwyr yn deall disgwyliadau o ran presenoldeb, gan gynnwys sut i roi gwybod am absenoldeb, y cysylltiad â'r LCA a chanlyniadau posibl presenoldeb gwael. Roedd llawer ohonynt yn disgrifio presenoldeb fel eu cyfrifoldeb nhw eu hunain ac yn cydnabod ei gysylltiad â chyrhaeddiad a dilyniant, er bod llai ohonynt yn gwybod beth oedd eu hunion gyfraddau presenoldeb.

Roedd dysgwyr yn fwy tebygol o fynychu pan roedd addysgu yn ddifyr, yn strwythuredig ac wedi'i gysylltu'n glir â'u nodau. Roeddent yn gwerthfawrogi perthnasoedd cadarnhaol â staff ac yn cael eu cymell gan wersi a oedd yn teimlo'n bwrpasol, yn ymarferol neu'n bwysig ar gyfer dilyniant yn y dyfodol. Mewn cyferbyniad, roedd presenoldeb yn wannach mewn sesiynau yr oedd dysgwyr yn amgyffred eu bod yn llai perthnasol, yn enwedig Bagloriaeth Cymru, sesiynau tiwtorial, cyfoethogi a darpariaeth medrau. Yn yr achosion hyn, roedd rhai dysgwyr yn fwy tebygol o flaenoriaethu gwaith arall neu ymrwymadau eraill.

Coleg Cambria: Gwobrwyo presenoldeb mewn medrau

Mae'r coleg wedi cyflwyno system cydnabyddiaeth a gwobrau i annog presenoldeb, yn enwedig mewn sesiynau llythrennedd a rhifedd lle mae presenoldeb yn nodweddiadol yn is nag ydyw ym mhrif raglenni dysgwyr. Gall dysgwyr gael tystysgrifau, talebau a gwobrau eraill am bresenoldeb cryf neu lawn, yn cynnwys cydnabyddiaeth benodol am Saesneg a mathemateg. Cefnogir y fenter gan negeseuon clir fod yr un disgwyliadau â

phynciau galwedigaethol ynghlwm â sesiynau medrau, ochr yn ochr ag ymdrechion i ddathlu cyflawniadau mewn presenoldeb gyda dysgwyr a rhieni. Dywed staff fod y dulliau hyn wedi helpu gwella presenoldeb mewn ychydig o feysydd lle mae presenoldeb wedi bod yn wannach, yn draddodiadol.

Mewn lleoliadau ôl-16, roedd annibyniaeth gynyddol hefyd yn dylanwadu ar bresenoldeb. Er bod llawer o ddysgwyr yn rheoli hyn yn dda, roedd lleiafrif ohonynt yn gwneud penderfyniadau detholus am ba sesiynau i'w mynychu, yn enwedig lle roedd amserlenni yn cynnwys bylchau hir, gwersi hwyr neu ddiwrnodau estynedig. Roedd hyn yn fwy cyffredin ymhlith dysgwyr hŷn, yn enwedig dysgwyr Blwyddyn 13 mewn dosbarthiadau chweched ysgolion, lle roedd gwaith cwrs, arholiadau, cyflogaeth a chynllunio dilyniant yn creu pwysau ychwanegol. Mewn llawer o achosion, roedd dysgwyr hŷn hefyd yn fwy tebygol o allu defnyddio'u cludiant eu hunain, a oedd yn cynyddu eu hyblygrwydd i adael safle rhwng gwersi neu ddewis peidio â mynychu sesiynau penodol.

Roedd dysgwyr yn gwerthfawrogi cymorth bugeiliol a chymorth un i un cryf yn gyson. Roeddent yn gwerthfawrogi'n arbennig cael oedolyn y gallent ymddiried ynddo/ynddi a oedd yn gwybod am eu hamgylchiadau ac yn ymateb yn gyflym pan roedd pryderon yn codi. Teimlai llawer o arweinwyr hefyd eu bod yn cael cefnogaeth dda i ddal i fyny ar ôl absenoldeb trwy blatfformau ar-lein, adnoddau wedi eu lanlwytho a chymorth uniongyrchol gan athrawon. Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf ohonynt yn gweld o hyd fod addysgu wyneb yn wyneb yn fwy effeithiol, yn enwedig mewn pynciau ymarferol neu ble roedd esboniad uniongyrchol yn bwysig. Mewn ychydig iawn o achosion, roedd argaeledd adnoddau ar-lein yn lleihau angen canfyddedig dysgwyr i fynychu pob sesiwn, yn enwedig lle roedd dysgwyr yn teimlo y gallent fynd at ddeunyddiau yn annibynnol y tu allan i wersi.

Ysgol Morgan Llwyd: Dal i fyny trwy'r Hyb Dysgu

Mae Hyb Dysgu'r ysgol yn darparu cymorth academiaidd a bugeiliol strwythuredig ar gyfer dysgwyr chweched dosbarth sydd angen help i ddal i fyny ar ôl cyfnodau o bresenoldeb isel. Gall dysgwyr hunangyfeirio trwy wefan yr ysgol, ac mae staff yn cydlynu'n agos ag athrawon pwnc i sicrhau bod adnoddau, deunyddiau gwersi a chymorth targedig ar gael yn brydlon. Mae'r Hyb ar agor trwy gydol y diwrnod ysgol ac yn cynnwys cymorth gan uwch arweinwyr, mentoriaid dysgu ac arbenigwyr pwnc, lle bo'n briodol. Mae staff yn teilwra cymorth yn ofalus i anghenion dysgwyr unigol, er enghraifft trefnu sesiynau cymorth un i un yn ystod cyfnodau rhydd i fynd i'r afael â bylchau mewn dysgu. Mae'r Hyb yn cefnogi ymyrraeth gynnar ac ailymgysylltu trwy ddarparu amgylchedd cefnogol ar gyfer dysgwyr i fagu hyder o'r newydd a chynnal cynnydd ar ôl cyfnodau o absenoldeb.

Roedd rhwystrau ymarferol rhag presenoldeb yn destun pryder mynych i ddysgwyr. Roeddent yn amlygu bod costau cludiant, cludiant cyhoeddus annibynadwy, teithiau hir, bylchau mewn amserlenni a gwersi ynysig yn ffactorau a oedd yn gwneud presenoldeb yn anos. Roedd y materion hyn yn hynod arwyddocaol i ddysgwyr sy'n teithio pellterau hir neu'n mynychu darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar draws ardaloedd daearyddol eang.

Roedd dysgwyr hefyd yn disgrifio straen, gorbryder a baich gwaith yn ffactorau sy'n effeithio ar bresenoldeb, yn enwedig yn ystod cyfnodau asesu neu arholiadau. Yn yr achosion hyn, roedd absenoldeb weithiau'n gysylltiedig ag anhawster o ran rheoli pwysau gwaith yn hytrach na diffyg ymgysylltu â dysgu.

Cefnogaeth a goruchwyliaeth awdurdodau lleol

Goruchwyliaeth a gwerthuso strategol

At ei gilydd, roedd rôl awdurdodau lleol o ran cefnogi presenoldeb yn y sector ôl-16 yn gyfyngedig. Yn wahanol i addysg orfodol, lle mae cyfrifoldebau wedi eu diffinio'n glir, roedd eu hymglymiad mewn lleoliadau ôl-16 yn canolbwyntio'n bennaf ar brosesau pontio a chynhwysiant. Dywedodd ysgolion a cholegau yn gyson mai'r darparwyr eu hunain yn bennaf oedd â chyfrifoldeb am fonitro a gwella presenoldeb yn y sector ôl-16. Yn ychwanegol, roedd absenoldeb data presenoldeb cenedlaethol cyson yn cyfyngu ar gyfleoedd ar gyfer meincnodi, her allanol a rhannu arfer effeithiol ar draws y sector.

Cludiant a mynediad at ddarpariaeth ôl-16

Yn wahanol i gludiant oedran ysgol gorfodol, mae cymorth ar gyfer dysgwyr ôl-16 yn ddewisol, i raddau helaeth. O ganlyniad, mae polisïau cludiant awdurdodau lleol yn amrywio'n sylweddol ledled Cymru. Er bod rhai awdurdodau'n parhau i ddarparu cludiant am ddim ar gyfer dysgwyr ôl-16 cymwys tra byddant yn mynychu dosbarthiadau chweched neu golegau, mae awdurdodau eraill yn darparu cymorth diduedd yn unig trwy grantiau teithio, trefniadau consesiynol neu gyfraniadau ariannol. Mae ychydig o awdurdodau wedi lleihau cymorth arferol yn sylweddol ar gyfer cludiant ôl-16 neu wedi'i dynnu'n ôl yn gyfan gwbl.

Weithiau, mae cymorth ond ar gael i ddysgwyr mewn darparwyr cyfrwng Cymraeg neu ddarparwyr ffydd, ac weithiau, nid yw dysgwyr mewn colegau addysg bellach yn gymwys i gael cymorth. O ganlyniad, gallai dysgwyr sy'n mynychu cyrsiau tebyg wynebu costau cludiant a threfniadau teithio cryn dipyn yn wahanol, yn dibynnu ar ble maent yn byw, gan greu'r hyn yr oedd llawer o ddarparwyr yn ei ddisgrifio fel 'loteri cod post' sy'n parhau i effeithio ar bresenoldeb a chyfranogiad rhai dysgwyr mewn addysg a

hyfforddiant ôl-16.

Pontio a rhannu gwybodaeth

Amlygodd llawer o ddarparwyr bwysigrwydd derbyn gwybodaeth amserol am hanesion presenoldeb dysgwyr, eu rhwystrau rhag ymgysylltu a'u trefniadau cymorth blaenorol cyn i ddysgwyr ddechrau ar eu rhaglenni ôl-16. Lle roedd protocolau addas ar gyfer rhannu gwybodaeth ar waith, ac roedd y wybodaeth hon yn cael ei rhannu'n effeithiol rhwng ysgolion, colegau a gwasanaethau perthnasol, roedd darparwyr yn gallu nodi'n well y dysgwyr sydd mewn perygl o fod â phresenoldeb gwael, a rhoi cymorth ar waith yn gynnar. Fodd bynnag, roedd trefniadau ar gyfer rhannu gwybodaeth yn gysylltiedig â phresenoldeb yn amrywio. Dywedodd sawl darparwr, yn enwedig colegau a dosbarthiadau chweched ysgolion sy'n recriwtio dysgwyr o sefydliadau eraill, eu bod yn cael gwybodaeth gyfyngedig am batrymau presenoldeb neu ymyriadau blaenorol dysgwyr. O ganlyniad, roedd darparwyr weithiau'n llai abl i nodi dysgwyr sydd mewn perygl o fod â phresenoldeb gwael yn ddigon cynnar a thargedu cymorth yn rhagweithiol yn ystod y cyfnod pontio.

Gwasanaethau lles addysg a gwasanaethau cymorth ehangach

Yn gyffredinol, roedd gwasanaethau presenoldeb a lles addysg awdurdodau lleol yn canolbwyntio'u gwaith ar ddysgwyr o oedran ysgol gorfodol. O ganlyniad, roedd ysgolion a cholegau yn nodweddiadol yn cymryd y prif gyfrifoldeb am fonitro presenoldeb, nodi pryderon a chydlynu ymyriadau ar gyfer dysgwyr ôl-16. Mewn ychydig o ardaloedd, roedd darparwyr yn gallu manteisio ar wasanaethau cymorth ehangach, yn cynnwys ymgysylltu â phobl ifanc, lles, diogelu a chymorth pontio, yn enwedig ar gyfer dysgwyr ag anghenion cymhleth neu'r rhai sydd mewn perygl o ymddieithrio. Fodd bynnag, roedd argaeledd a graddau'r cymorth hwn yn amrywio'n sylweddol. Er bod ychydig o ddarparwyr wedi disgrifio bod ganddynt gysylltiadau sefydledig â gwasanaethau awdurdodau lleol ar gyfer cynhwysiant neu ymgysylltu â phobl ifanc, dywedodd darparwyr eraill nad oedd awdurdodau lleol yn ymwneud rhyw lawer â phresenoldeb yn y sector ôl-16, os o gwbl.

Effaith presenoldeb ar ddeilliannau dysgwyr

Mae perthynas gref rhwng presenoldeb a deilliannau dysgwyr (Lam et al., 2023). Bron y mhob darparwr, roedd presenoldeb rheolaidd yn gysylltiedig â chyrhaeddiad cryfach, cyfraddau cadw gwell a dilyniant gwell. Roedd dysgwyr yn aml yn cydnabod bod mynychu gwersi'n rheolaidd yn cefnogi datblygiad eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau. Roedd hefyd yn eu helpu i gadw i fyny â gwaith cwrs a pharatoi'n fwy effeithiol ar gyfer arholiadau.

Mewn darparwyr cryfach, roedd arweinwyr yn defnyddio data presenoldeb ochr yn ochr â gwybodaeth am gynnydd, cyrhaeddiad a gwybodaeth fugeiliol i nodi dysgwyr sydd mewn perygl. Roedd presenoldeb yn ffurfio rhan o brosesau ehangach o ran adolygu'r cwricwlwm a phrosesau ymyrraeth, gan helpu arweinwyr i ystyried p'un a oedd dysgwyr yn dilyn cyrsiau priodol a ph'un a oedd angen cymorth ychwanegol neu newid llwybr. Mewn ychydig o ddarparwyr, roedd gwybodaeth am bresenoldeb yn cael ei defnyddio i lywio cyfweiliadau pontio, penderfyniadau am gadw a chymorth targedig.

Gwelwyd y dystiolaeth gliriaf o effaith lle roedd darparwyr yn dadansoddi presenoldeb ochr yn ochr â chadw a dilyniant. Mewn ychydig o achosion, roedd presenoldeb is yn gysylltiedig â llai o ddilyniant o UG i A2, deilliannau pynciau gwannach neu debygolrwydd uwch o ddysgwyr yn gadael ar ganol blwyddyn. Nododd un darparwr fod presenoldeb dysgwyr sy'n gadael ar ganol blwyddyn yn sylweddol is na'u cyfoedion, tra roedd un arall yn cysylltu gwelliannau mewn monitro presenoldeb a hyfforddiant cynnydd â chyfraddau cadw, dilyniant a chyflawniad gwell.

Coleg Gŵyr Abertawe: Anogwyr cynnydd yn gwella deilliannau

Mae'r coleg wedi datblygu model anogwyr cynnydd i gryfhau monitro presenoldeb a chymorth dilynol. Mae anogwyr cynnydd yn cyflwyno sesiynau tiwtorial, yn monitro presenoldeb a lles, ac fel arfer yn cefnogi tua 150 o ddysgwyr. Pan mae dysgwyr yn colli tair sesiwn, mae rhybudd yn sbarduno'r anogwr cynnydd i gysylltu ac archwilio rhwystrau rhag mynychu. Dywed arweinwyr y bu gwelliannau mewn cyfraddau cadw, dilyniant o UG i A2 a chyflawniad ers cyflwyno'r model, a'u bod yn bwriadu ymestyn y dull ar draws mwy o feysydd y cwricwlwm.

Roedd bron pob un o'r darparwyr yn deall pwysigrwydd presenoldeb corfforol rheolaidd ac yn ystyried bod hyn yn bwysig ar gyfer llwyddiant a lles dysgwyr, a pharatoi ar gyfer astudio pellach neu gyflogaeth. Roedd arweinwyr a staff yn aml yn amlygu gwerth dysgu wyneb yn wyneb, yn enwedig lle roedd dysgwyr yn elwa ar adnoddau arbenigol, addysgu ymarferol, esboniad uniongyrchol, trafodaeth ac adborth rheolaidd gan athrawon. Felly, roedd bron pob un o'r darparwyr yn ystyried bod cyfranogiad o bell neu annibynnol yn drefniant dros dro neu eithriadol yn hytrach na dewis yn lle mynychu gwersi wyneb yn wyneb.

Ar yr un pryd, roedd darparwyr yn cydnabod yn gynyddol nad oedd presenoldeb yn unig yn cofnodi ymgysylltiad dysgwyr yn llawn. Ar draws y ddau sector, roedd rhai dysgwyr yn parhau i gymryd rhan mewn dysgu yn ystod cyfnodau o absenoldeb trwy blatfformau ar-

lein, astudio annibynnol, adnoddau wedi eu lanlwytho a chysylltiad rheolaidd ag athrawon neu staff bugeiliol. Mewn ychydig o achosion, yn enwedig lle roedd dysgwyr yn profi rhwystrau sylweddol o ran iechyd, lles neu rwystrau personol, roedd trefniadau hyblyg fel dychweliadau graddol, dysgu hybrid neu gynlluniau cymorth teilwredig yn helpu dysgwyr i barhau i ymgysylltu ag addysg, ennill cymwysterau a gwneud cynnydd yn llwyddiannus.

Roedd hyn yn adlewyrchu newid ehangach mewn llawer o ddarparwyr tuag at ddulliau mwy cefnogol ac unigoledig o ran presenoldeb. Yn hytrach na dibynnu'n bennaf ar ymatebion cosbol neu dynnu'n ôl yn awtomatig yn gysylltiedig â throthwyau presenoldeb, roedd darparwyr yn fwy tebygol o ganolbwyntio ar gynnal ymgysylltiad, cefnogi ailymgysylltu a deall y rhwystrau sy'n effeithio ar ddysgwyr unigol. Mewn llawer o achosion, roedd dysgwyr â phresenoldeb is yn aros ar eu cyrsiau lle barnodd darparwyr eu bod yn parhau i gymryd rhan yn ystyrlon ac yn gwneud cynnydd digonol tuag at ddeilliant llwyddiannus.

Fodd bynnag, cydnabu'r rhan fwyaf o ddarparwyr fod angen monitro cyfranogiad mewn dysgu heb bresenoldeb rheolaidd yn ofalus i sicrhau bod dysgwyr yn parhau i wneud cynnydd academiaidd digonol ac aros yn barod ar gyfer dilyniant neu gyflogaeth. Mewn llawer o achosion, lle roedd gwerthuso cyfyngedig o b'un a oedd dysgwyr sy'n ymgysylltu o bell neu'n annibynnol yn cyflawni cystal â dysgwyr sy'n mynychu'n gyson wyneb yn wyneb.

Er gwaethaf cydnabyddiaeth eang o'r cysylltiad rhwng presenoldeb a deilliannau, nid oedd gwerthuso ffurfiol wedi'i ddatblygu'n ddigonol mewn llawer o ddarparwyr. Roedd sawl arweinydd yn cydnabod y berthynas rhwng presenoldeb, cyrhaeddiad a dilyniant ond nid oeddent yn dadansoddi hyn yn systematig, yn enwedig mewn cysylltiad â chyrchfannau neu ddeilliannau tymor hwy. Roedd hyn yn cyfyngu ar allu arweinwyr i nodi pa ddulliau oedd fwyaf effeithiol o ran gwella presenoldeb, cadw a deilliannau dysgwyr dros gyfnod.

Dulliau a sail y dystiolaeth

Defnyddiodd yr adroddiad hwn dystiolaeth a gasglwyd rhwng Ionawr a Mawrth 2026 i roi trosolwg cenedlaethol o bresenoldeb a chyfranogiad mewn addysg ôl-16 yng Nghymru, ochr yn ochr â thystiolaeth fanwl am arfer darparwyr a phrofiad dysgwyr.

Canolbwyntiodd y gwaith maes ar:

- batrymau a thueddiadau mewn presenoldeb a chyfranogiad
- achosion diffyg presenoldeb
- dulliau darparwyr ar gyfer monitro, cofnodi a gwella presenoldeb
- y berthynas rhwng presenoldeb, cyfranogiad a deilliannau dysgwyr

Roedd trywyddau ymholi yn cael eu llywio gan waith thematig blaenorol Estyn ar bresenoldeb, blaenoriaethau polisi presennol a materion a nodwyd trwy weithgarwch arolygu. Rhoddwyd sylw i'r gwahaniaeth rhwng presenoldeb a chyfranogiad, defnyddio data presenoldeb, yn cynnwys at ddibenion LCA, ac effeithiolrwydd strategaethau ymyrraeth.

Roedd yr adolygiad yn cynnwys tystiolaeth o bob un o'r 12 coleg addysg bellach yng Nghymru a 25 o ysgolion sydd â dosbarthiadau chweched, fel y maent wedi eu rhestru yn yr adran gydnabyddiaethau. Llenwodd pob un o'r 12 coleg arolwg a ffurflen ddata ar y cyd i ddarparu sail dystiolaeth genedlaethol gyson. Yn ychwanegol, archwiliwyd materion presenoldeb a chyfranogiad trwy ymweliadau adolygu thematig rhithwir â 10 coleg, tra casglwyd tystiolaeth o'r ddau goleg sy'n weddill wyneb yn wyneb trwy drafodaethau a gynhaliwyd fel rhan o'u gweithgarwch craidd i arolygu addysg bellach. Roedd y sampl ysgolion yn adlewyrchu ystod o gyd-destunau, yn cynnwys cynrychiolaeth o awdurdodau lleol ledled Cymru, darpariaeth cyfrwng Cymraeg a Saesneg, dosbarthiadau chweched o wahanol feintiau, ac ysgolion â phroffiliau presenoldeb amrywiol o ran oedran gorfodol.

Defnyddiwyd sawl ffynhonnell mewn tystiolaeth feintiol. Darparodd Llywodraeth Cymru ddata presenoldeb ar gyfer dosbarthiadau chweched ysgolion yn cwmpasu blynyddoedd academiaidd 2023/24 a 2024/25. Roedd y set ddata yn cynnwys gwybodaeth ar lefel genedlaethol ac ysgol, gyda rhai dadansoddiadau yn ôl nodweddion dysgwyr. Fodd bynnag, nid oedd y set ddata yn statudol, nid oedd wedi cael ei dilysu na'i chyhoeddi'n ffurfiol, ac roedd yn cynnwys anghysondebau mewn arferion codio a chofnodi rhwng darparwyr. Dywedodd Llywodraeth Cymru fod y data yn ddibynadwy ar lefel genedlaethol, at ei gilydd, ond dylid ei drin yn ofalus ar lefel darparwr. Yn ychwanegol, nid oedd yn cynnwys dangosyddion economaidd-

gymdeithasol fel cymhwyster i gael prydau ysgol am ddim neu statws LCA, na dadansoddiadau yn ôl lefel cwrs. Nid oedd set ddata genedlaethol gyfatebol ar gyfer colegau addysg bellach. O ganlyniad, roedd dadansoddiad meintiol ar gyfer y sector addysg bellach yn dibynnu'n bennaf ar ddata lefel darparwr.

Cwblhaodd pob un o'r darparwyr a oedd yn cymryd rhan dempled data yn gofyn am:

- gyfraddau presenoldeb cyffredinol
- presenoldeb yn ôl grŵp dysgwyr a lefel cyrsiau
- presenoldeb ar lefel pwnc
- data absenoldebau awdurdodedig ac anawdurdodedig
- rhesymau dros beidio â mynychu
- codau cofrestru a ddefnyddir

Lle bo modd, roedd templedi chweched dosbarth yn cael eu poblogi ymlaen llaw gan ddefnyddio data Llywodraeth Cymru i gefnogi cysondeb a chywirdeb.

Llenwodd darparwyr arolwg cyn-ymweliad, hefyd, yn cwmpasu:

- tueddiadau a phatrymau presenoldeb
- systemau monitro ac adrodd
- rhwystrau canfyddedig rhag mynychu
- dulliau o ran ymyrraeth a chymorth

Cynhyrchwyd y dystiolaeth ansoddol yn yr adroddiad hwn trwy ymweliadau o bell â darparwyr. Cynhaliwyd ymweliadau â cholegau addysg bellach a dosbarthiadau chweched mwy dros ddiwrnod, ac roeddent yn cynnwys cyfarfodydd ag uwch arweinwyr, staff gweithredol a grwpiau dysgwyr, ochr yn ochr ag amser i arolygwyr adolygu dogfennaeth a thrafod canfyddiadau. Ymwelwyd â chweched dosbarthiadau llai dros hanner diwrnod gan ddefnyddio strwythur tebyg.

Ar draws pob ymweliad o bell, bu arolygwyr yn cyfarfod â'r canlynol:

- uwch arweinwyr sy'n gyfrifol am bresenoldeb, y cwricwlwm neu ddarpariaeth fugeiliol
- staff gweithredol, yn cynnwys tiwtoriaid, swyddogion presenoldeb, arweinwyr LCA, anogwyr cynnydd a staff lles
- dysgwyr rhwng 16 ac 19 oed

Yn ystod yr ymweliadau hyn, cynhaliodd arolygwyr 51 o grwpiau trafod i ddysgwyr, yn cynnwys tua 500 o ddysgwyr. Er bod presenoldeb ychydig o ddysgwyr mewn grwpiau trafod yn is neu'n fwy amrywiol, roedd llawer ohonynt yn mynychu'n rheolaidd.

Archwiliodd trafodaethau ddealltwriaeth dysgwyr o ddisgwyliadau o ran presenoldeb, rhesymau am absenoldeb, a phrofiadau o addysgu, cymorth ac ymgysylltu.

Bu arolygwyr hefyd yn adolygu dogfennaeth darparwyr, yn cynnwys polisiâu presenoldeb, strategaethau, dangosfyrddau ac adroddiadau mewnol. Yn ychwanegol, defnyddiodd yr adolygiad drafodaethau gyda swyddogion Llywodraeth Cymru, Medr a chynrychiolwyr awdurdodau lleol, yn enwedig arweinwyr lles addysg.

Ystyriodd yr adroddiad ganfyddiadau o ymchwil allanol ac arolygon cenedlaethol ar bresenoldeb a chyfranogiad, hefyd, i ddarparu cyd-destun ehangach.

Roedd sawl cyfyngiad i sail y dystiolaeth. Roedd absenoldeb set ddata genedlaethol, wedi'i dilysu ar gyfer presenoldeb yn y sector ôl-16, yn enwedig mewn colegau addysg bellach, yn cyfyngu ar y gallu i greu dadansoddiad cenedlaethol cwbl gymaradwy. Roedd amrywioldeb o ran sut roedd darparwyr yn diffinio ac yn cofnodi presenoldeb, yn cynnwys absenoldeb awdurdodedig, hefyd yn effeithio ar gymaradwyedd. Caiff y dystiolaeth gan ddysgwyr a gyflwynir yn yr adroddiad hwn ei llywio gan drafodaethau gyda thua 500 o ddysgwyr ar draws 51 o grwpiau trafod. Er bod y safbwyntiau hyn yn rhoi mewnwelediad gwerthfawr i brofiadau dysgwyr, ni ddylid ystyried eu bod yn ystadegol gynrychioliadol o'r holl ddysgwyr ôl-16 yng Nghymru. Er gwaethaf y cyfyngiadau hyn, roedd y dystiolaeth yn ddigon cyson i nodi patrymau cenedlaethol eang a themâu cyffredin ar draws addysg ôl-16 yng Nghymru.

Cydnabyddiaethau

Hoffem ddiolch i'r ysgolion a'r colegau canlynol a gyfrannodd at yr adolygiad hwn, ynghyd â swyddogion Medr a Llywodraeth Cymru, cynrychiolwyr awdurdodau lleol a rhanddeiliaid eraill a ddarparodd dystiolaeth a mewnwelediadau gwerthfawr:

Dosbarthiadau chweched ysgolion	Colegau Addysg Bellach
Ysgol Esgob Gore	Coleg Pen-y-bont
Ysgol Esgob Vaughan	Coleg Caerdydd a'r Fro
Ysgol Brynteg	Coleg Cambria
Ysgol Gyfun Caerllion	Coleg Gwent
Ysgol Uwchradd Castell Alun	Coleg Merthyr
Coleg Cymunedol Y Dderwen	Coleg Sir Gâr
Ysgol Lewis Pengam	Coleg y Cymoedd
Ysgol Gyfun Trefynwy	Coleg Gŵyr Abertawe
Ysgol Uwchradd Casnewydd	Grŵp Llandrillo Menai
Ysgol Uwchradd Yr Eglwys yng Nghymru	Grŵp NPTC Group

Sant Ioan Fedyddiwr	
Ysgol Stanwell	Coleg Sir Benfro
Ysgol Uwchradd Yr Eglwys Newydd	Coleg Chweched Dosbarth Catholig Dewi Sant
Ysgol Uwchradd Whitmore	
Ysgol Brynhyfryd	
Ysgol David Hughes	
Ysgol Dinas Brân	
Ysgol Dyffryn Aman	
Ysgol Garth Olwg	
Ysgol Gymraeg Gwynllyw	
Ysgol Gyfun Penweddig	
Ysgol John Bright	
Ysgol Llanfyllin	
Ysgol Morgan Llwyd	
Ysgol Uwchradd Glan Clwyd	
Ysgol Godre'r Berwyn	

Geirfa

Presenoldeb	Presenoldeb wedi'i gofnodi ar gyfer dysgwr mewn gwersi wedi eu hamserlennu neu weithgareddau dysgu cytûn.
Cyfranogiad	Ymgysylltiad dysgwr â gweithgareddau dysgu, yn cynnwys dysgu ar-lein, astudio annibynnol neu gyfathrebu â staff, p'un a yw'n bresennol yn gorfforol mewn gwersi ai peidio.
Absenoldeb awdurdodedig	Absenoldeb sy'n cael ei dderbyn gan y darparwr am reswm cymeradwy, fel salwch, apwyntiadau meddygol neu amgylchiadau eithriadol cytûn.
Absenoldeb anawdurdodedig	Absenoldeb nad yw wedi cael ei gymeradwyo gan y darparwr neu ble na roddwyd rheswm derbyniol am absenoldeb.
Lwfans Cynhaliaeth Addysg (LCA)	Cymorth ariannol sydd ar gael i ddysgwyr ôl-16 cymwys, sy'n gysylltiedig â disgwyliadau cytûn o ran presenoldeb a chyfranogiad.
Presenoldeb ar y safle	Ffordd o fesur presenoldeb corfforol dysgwyr mewn gwersi neu ar safle darparwr, sy'n wahanol i gyfranogiad ehangach mewn dysgu.
Absenoldeb parhaus	Presenoldeb islaw 90% o wersi neu sesiynau wedi eu hamserlennu, disgwylidig.
Tîm o amgylch y dysgwr	Dull cydlynus lle mae staff cymorth bugeiliol, lles, cwricwlwm a staff cymorth allanol yn gweithio gyda'i gilydd i gefnogi dysgwyr unigol.
Dull sy'n ystyriol o drawma	Dull sy'n cydnabod effaith profiadau, lles ac amgylchiadau personol dysgwyr ar ymddygiad, ymgysylltiad a phresenoldeb, ac yn ymateb trwy arfer gefnogol a pherthynol.

Niferoedd – symiau a chyfrannau

bron pob un =	gydag ychydig iawn o eithriadau
y rhan fwyaf =	90% neu fwy
llawer =	70% neu fwy
mwyafrif =	dros 60%
hanner =	50%
tua hanner =	yn agos at 50%
lleiafrif =	islaw 40%
ychydig =	islaw 20%
ychydig iawn =	llai na 10%

Cyfeiriadau

Cymdeithas y Colegau (2024) *College-Attendance-Survey-Report-2024* Further Education Attendance Survey Report, Autumn Term 2023 and Four-Year Trends. Ar gael yn: [College-Attendance-Survey-Report-2024.pdf](#) (Darllenwyd: 18 Tachwedd 2025).

Estyn (2024) *Gwella Presenoldeb mewn Ysgolion Uwchradd*. Ar gael yn: <https://www.estyn.llyw.cymru/system/files/2020-07/Presenoldeb%2520mewn%2520ysgolion%2520uwchradd%2520-%2520Medi%25202014.pdf> (Darllenwyd: 18 Tachwedd 2025).

Estyn (2025a) *Gwella Presenoldeb mewn Ysgolion Uwchradd: Diweddariad ar Gynnydd*. Ar gael yn: <https://www.estyn.llyw.cymru/app/uploads/2025/05/Gwella-presenoldeb-mewn-ysgolion-uwchradd-diweddariad-ar-gynnydd-1.pdf> (Darllenwyd: 18 Tachwedd 2025).

Estyn (2025b) *Ymddygiad Dysgwyr mewn Colegau Addysg Bellach*. Ar gael yn: <https://www.estyn.llyw.cymru/app/uploads/2025/04/Adroddiad-Thematig-Ymddygiad-Dysgwyr-mewn-colegau-AB.pdf> (Darllenwyd: 18 Tachwedd 2025).

Klein, M., Sosu, E.M. a Dare, E. (2022) 'School absenteeism and academic achievement: Does the reason for absence matter?', *AERA Open*, 8. Ar gael yn: <https://doi.org/10.1177/23328584211071115> (Darllenwyd: 18 Tachwedd 2025).

Lam, P. et al. (2023) 'Is showing up half the work?', *College Teaching*, 73(4). Ar gael yn: <https://doi.org/10.1080/87567555.2023.2262676> (Darllenwyd: 18 Tachwedd 2025).

Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru (2024) *Deall Annhegwch mewn Addysg Drydyddol yng Nghymru*. Ar gael yn: [ADR-Wales-Data-Report-Understanding-inequity-in-tertiary-education.pdf](#)(Darllenwyd: 18 Tachwedd 2025).

Llywodraeth Cymru (2024) *Adolygiad o'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg yng Nghymru*. Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2024-07/adolygiad-or-lwfans-cynhaliaeth-addysg-yng-nghymru.pdf> (Darllenwyd: 18 Tachwedd 2025).